YR

YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

RHIF. 58.] HYDREF, 1863. [AIL GYFRES.

CYNNWYSIAD.

TUDAL.

Marwolaeth Dr. Lloyd 221
Joguth Chunder Gangooly 223
Angel: neu onestrwydd yn cael ei wobrwyo 228
Crefydd Crist yn Grefydd Cariad 231
Trem dros Ariaeth.—Eusebius o Nicomedia, &c 232
Nod yr Athronydd 234
Rhagfarn 234
Theodore Parker—Ei olygiadau ar yr Enw Cristion 235

GOHEBIAETHAU—
Gofyniad oddiar Rhufeiniaid ix. 5 238
Gofyniad at ddeiliaid yr Ysgol Sabothol 238

HANESION CARTREFOL A THRAMOR—
Y Llŷs a'r Weinyddiaeth 238
Yr Eisteddfod Genedlaethol 239
Arglwydd Russell yn Blairgowrie 239
Y Negroaid 240
Y Cyfandir 240
America 240
Y Presbyterian Board a'r Diweddar Dr. Lloyd 241

MARWOLAETHAU—
Evan Abel Jones, Lott Davies, a Mrs. Jones 241
John Williams, D. Davies, David Jones, Margaret Thomas, ac Ann Matthews 242
Y Parchedig Dr. Lloyd 243

BARDDONIAETH—
Y Rhyfel yn America 227
Galareb er cof am Mrs. Margaret Dafis 237
Ymadawiad y Fam 244
Yr hen garreg lwyd ym min y mynydd 244
Profiad y Bardd 244

Penybont:
ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.

[PRIS 3C.—TRWY Y POST, 4C.]

YR YMOFYNYDD.

Rhif. 58.] HYDREF, 1863. [Ail Gyfres.

MARWOLAETH DR. LLOYD.

Mae y newydd galarus—am farwolaeth ein cyfaill caredig a ffyddlon, Dr. David Lloyd o Gaerfyrddin—erbyn hyn yn ddiau wedi cyrhaedd y rhan fwyaf o ddarllenwyr yr Ymofynydd. Nos Sul, y 15fed o Fedi, canodd yn iach i'r fuchedd hon, yn 58 mlwydd oed, a chladdwyd ef y dydd Gwener canlynol yn y Gladdfa gyhoeddus *(Cemetery)* perthynol i'r dref.

Nid y'm ond newydd ddychwelyd o'i angladd; a chyda galar, coelier, a hiraeth dwys yr ymgymmerwn â'r gorchwyl o gofnodi yn fyr ei ymadawiad o'n plith. Y teimladau a gyfodant oddiar hir adnabyddiaeth a chyfeillgarwch brawdol a phersonol a gymerant eu lle priodol mewn adgofiant mynwesol gyda'r rhai a adewir ar ol, ac ni fynnant ymwthio ger bron y cyhoedd. Ac i'r sawl a adwaenent yr ymadawedig nid oes eisieu dwyn ar gof, ei serchogrwydd a'i garedigrwydd gwresog: sicr mai y rhinweddau hyny yn gymmaint, neu fwy na dim arall a hynodent ei gymmeriad.

Tra y cofir (ac yn ddiau fe gofir yn hir ac yn barchus) am ei ddysg a'i allu meddyliol, am ei egni a'i lafur diflino a llwyddiannus fel Athraw'r Coleg, am ei weithgarwch a'i sêl yn y weinidogaeth Grist'nogol, a'i ymdrechiadau gwresog o blaid yr hyn a gofleidiai ef yn anwyl fel gwirioneddau yr Efengyl, ac yn achos dyngarwch yn gyffredinol, gyda hyny, os nid o flaen hyny oll, cofir ond odid am *hyn* fel un o brif nodweddau ein cyfaill: *mai hoff beth ganddo oedd cael gwneuthur cymmwynas*, i'r anghenog ac i'r cleifion yn enwedig. Yr oedd ei elusengarwch a'i garedigrwydd yn ddiarebol. Tra ar y pen hwn, gyda dwyn ar gof eiriau ein Harglwydd, "Yn gymmaint a'i wneuthur o honoch i'r rhai hyn fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch;" teimlwn nad anghymmwys fyddai adrodd geiriau Dewi Wyn ynghylch gwobrwy yr elusengar:—

"Y rhai yn awr a heuant—eu maesydd,
Dim eisiau ni welant;
Os i'r bedd, ar ddiwedd ant,
I fedi adgyfodant:
Myned i Fyd y Mwyniant,
Yn myd y Nef medi wnant."

Yr oedd Dr. Lloyd, fel y mae yn adnabyddus i'n darllenwyr, yn dwyn mawr sêl ymhlaid egwyddorion Undodaidd, ac yn wresog gyda phob ymdrechiad dros eu hymdaeniad. Ond nid oedd hyny yn dramgwyddus i'r nifer mawr o weinidogion o enwadau eraill, y rhai yr oedd a wnelai â hwynt yn ei swydd Golegol, nac i'r myfyrwyr; oherwydd gwelent fod y sêl a'r awyddfryd yma a ddangosai yn ei gylch enwadol, yn cyfodi oddiar argyhoeddiad

cydwybodol, ac nid oddiar bleidgarwch, ac eu bod mewn undeb a gwir barch i gydwybodau y sawl a wahaniaethent oddi wrtho, ac wedi eu tymheru, i raddau helaeth, â'r hynawsedd Crist'nogol sydd "yn dioddef pob dim, ac yn gobeithio pob dim." Fel un prawf o fod proffes onest o wirionedd ammhoblogaidd mewn undeb âg yspryd ac ymddygiad hynaws a charuaidd, yn foddion o'r tebyccaf i symmud rhagfarn ac i enill parch gwrthwynebwyr; gellid cyfeirio, dybygem, at y dorf o weinidogion o wahanol enwadau, o'r dref a'r gymydogaeth ac o barthau pellenig, ynghyd ag amryw o'r dynion mwyaf cyfrifol yn y lle, y rhai a ddaethent i'r angladd er tystio eu parch i Dr. Lloyd. Gall dynion cydwybodol amrywio yn eu golygiadau ar byngciau sydd o'r pwys mwyaf: gallant gyfnewid eu barn ar ol ymchwiliad pellach; ond y mae ffyddlondeb a chysondeb a charedigrwydd, bob amser yn claimio parch ac yn sicr o'i gyrhaeddyd yn y pendraw: neu i ddefnyddio geiriau yr Apostol, "Pa un bynnag ai prophwydoliaethau, hwy a ballant; ai tafodau, hwy a beidiant; ai gwybodaeth, hi a ddiflana; ond Cariad byth ni chwymp ymaith."

Bwriadir rhoddi ychydig fanylion bywgraffiadol mewn man arall o'r rhifyn hwn. Ond y mae un peth a ymddengys i ni yn gymmwys i'w nodi yma; a hyny mewn perthynas i'r geiriau *i'w barhau* ar ddiwedd llythyr olaf Dr. Lloyd ar Ffydd Gadwedigol (Rhifyn Gorphenaf). Yn yr ymddiddan olaf a fu rhyngom ni ag ef—prin wythnos cyn ei daro ef â'r parlys—dywedodd, nad oedd ef yn bwriadu cyfeirio at ddim ag oedd wedi ymddangos mewn un modd yn bersonol, nac yn gweled fod eisieu na chymhwysder iddo wneud unrhyw sylwadau pellach ar y pethau ammherthynol i'r pwngc ag oeddent wedi ymlusgo i mewn i'r ddadl rhyngddo a Mr. Thomas. Ond y dymunai yn fawr, cyn diweddu, gael gosod gerbron y darllenwyr ei olygiadau ei hun *ar natur a phwysigrwydd y gadwedigaeth sydd trwy ffydd yn Nghrist, ac annghydmarol werth y ffydd hono;* ac i wneud hyny mewn byr eiriau ac mor eglur ac mor gynnwysfawr ag y medrai. Gobeithiai allu gwneud hyny o fewn cwmpas wyneb-dalen neu ychydig yn rhagor. Yr oedd yr ymddiddan yn Saesneg, ac, wrth gwrs, yn ein geiriau ein hunain y rhoddwn y sylwedd: nid yw yn debygol ein bod wedi camddeall.

Cafwyd cryn siarad ar bethau eraill, ond nid pell oddiwrth ffydd a chadwedigaeth: nid oedd yr un o honom yn meddwl fawr mai y siarad hwnw fyddai yr olaf rhyngom. Arferem cyttuno nad yw y dyb newydd am yr hyn a elwir "*truths of intuition*" (neu bethau a ganfyddir ar unwaith gan y meddwl heb weithrediadau rheswm) ddim amgen nag adfywiad o'r hen dyb am *innate ideas* a wrthwynebid gan Locke, a bod dull Locke o lefaru am weithrediadau y rheswm a roddes Duw i ddynion mewn perthynas a gwrthddrychau sylw a phrofiad ac hefyd âg addysgiadau crefydd, yn llawer mwy dealladwy ac i'r pwrpas. Yn cydnabod fod gwirioneddau dadguddiad yn rhwym o fod yn cyfatteb i addysgiadau rheswm, ac i'n teimladau goreu, etto cyttunem yn llwyr fod gwerthfawrogrwydd a nerth neillduol yr Efengyl, yn ei hannogaethau a'i haddewidion, yn cyfodi oddiar ei bod yn cael ei chynnyg i ni gydag awdurdod ag oedd oddiwrth Dduw.

Yr oedd Dr. Lloyd yn un ag oedd yn teimlo yn fywiog ac yn ysgrifenu yn gryf; ond yr oedd yn ysgrifenu yn frysiog, heb ofalu digon, feallai, i bwyso ei eiriau, yr hyn weithiau a'i gwnai yn agored i gael ei gam-ddeall. Y mae ef bellach wedi canu yn iach i bob dadleuaeth; ond y mae y "gadwedigaeth sydd trwy ffydd yn Nghrist," yn bwngc ag sydd *yn parhau* i fod yn werth ei egluro a'i amddiffyn. I.

JOGUTH CHUNDER GANGOOLY.

(*Parhad o tudal.* 216.)

Yr oedd gan y duwiau Hindwaidd eu gwahanol nefoedd, rhai llefydd neilldu i anneddu ynddynt. Krishto yn Goluck, Shiba yn Koylas, &c. Ond wrth droi at Grist clywai Joguth ef yn dywedyd fod ein Tad ymhob man—yn llanw y bydysawd â'i bresennoldeb; nad oedd un man mor uchel ag i gyfyngu ei bresennoldeb, nac un man mor isel nad oedd Efe yno. Am addoliad—dysgodd gynt i addoli delwau ei dduwiau, i roddi bwyd a dillad iddynt, ac yn achlysurol i ymweled a'r dinasoedd sanctaidd, megys Orissa neu Benares, &c. Ond dysgai Crist iddo yn wahanol—Nad yn y mynydd hwn na Jerusalem, nad yn Orissa na Benares yn unig oedd y lle cymhwys i addoli Duw. Rhaid addoli Duw yn yr ysbryd, canys Ysbryd yw. Yr oedd hwn yn ymddangos iddo yn feddylddrych hyfryd iawn, canys yr oedd yn galluogi yr uchel a'r isel i addoli'r Creawdwr —i gymdeithasu ag Ef—i osod ger ei fron eu holl lawenydd, a'u gofidiau a'u siomedigaethau, yn lle myned ar ei ol i Jerusalem neu Benares. Mawr oedd ei gysur wrth wybod fod calon bur a drylliedig, â'i holl dlodi yn fwy derbyniol na'r aberth gwerthfawrocaf—ïe, na themlau o aur. Ei feddwl gynt oedd nad oedd gan y gwr tlawd, er ei holl gyfiawnder a'i burdeb calon, a'i gariad at bethau sanctaidd, ddim un hawl i gyfranogi o lawenydd y nefoedd gyda'r dyn drwg cyfoethog, yr hwn sydd wedi treulio arian lawer i ymweled â themlau, i wneuthur teithiau pererinol, ac addoli delwau costfawr,—am ymwared oddiwrth y meddwl iselwael hwn y mae yn awr yn diolch o'i galon i'w Dduw. Yn ol system y *castes* nid yw dyn o'r *castes* isel ddim yn fwy o frawd i Frahmin nag yw ef i un o'r creaduriaid afresymol. Pe cyffyrddai crydd yn ddamweiniol a llestr bwyd Brahmin, ni chyffyrddai a'i gynnwys mwy na phe byddai ci wedi bod a'i drwyn ynddo. Yr oedd Joguth o gañlyniad wedi ei ddysgu i edrych i lawr ar bawb o'r *castes* isel. Ni chyffyrddai a hwy os gallai help. Yr oedd yn gosod ei droed ar eu penau, yn rhoddi llwch ei droed iddynt i'w fwyta, ac yn addaw iddynt fendithion daearol a nefol. Ond wedi clywed o enau yr Iesu ei berthynas â'i gyd-ddyn a'i ddyledswydd tuag ato, daeth y rhai isel yn union yn ei olwg cyfuwch ag yntau. Dysgodd nad oedd "Duw dderbyniwr wyneb," ei fod yn gwneuthur i'w Haul godi ar y drwg a'r da—nad oedd yn edrych ar y genedl ond ar y galon, y caffai'r dirmygedig nefoedd o flaen y Pharisead balch. "Yn wir," meddai Joguth, "nid oes neb ond Duw a ŵyr fawredd y llawenydd a deimlwn wrth sefyll gerllaw y *castes* isel! Tra yn yr hëol, rhodiwn yn agos atynt, a thrwy hyny yr oeddwn yn cael cyfleusdra i gyffwrdd a hwy. Wrth gwrs yr oedd y rhai hyny ag oedd wedi tyfu i fyny o honynt yn gochelyd dyfod yn agos rhag ofn perygl iddynt eu hunain. Am hyny yr oeddwn yn arfer cuddio fy nôd-wisg sanctaidd tan fy nillad, canys yn ei le priodol byddai yn arwydd iddynt beth oeddwn. Yr oeddwn yn arfer llefaru geiriau cariadus wrth feibion dirmygedig dynoliaeth."

"Wedi darllen Bywyd Crist yn ofalus," meddai, "daethum i'r casgliad canlynol:"—Mai Un Duw yw ein Creawdwr, yr hwn yw nid yn unig yr uwchaf, a'r mwyaf nerthol o bawb, ond ar yr un pryd ein Tad,—ein Tad cariadlawn, a chalon ganddo yn fwy tyner nag eiddo neb o'n cyfeillion. Yr o'wn yn gorfod *ofni* duwiau fy nhadau, ond pan eisteddwn wrth draed y Doethineb Dwyfol a ddangosai i mi un Duw, a hwnw'n Dad, yr oeddwn yn dymuno ei *garu* ef.

2. Dysgais fod dyn yn frawd i mi, nad beth ei *gaste*, ei gredo, ei liw, neu ei wlad, oherwydd fod yr un Tad wedi rhoddi bywyd i ni; ein bod ni 'run yn gystal a'r llall yn dderbynwyr ei fendithion, a genym yr un hawliau ar ei gariad annherfynol. Dysgais mai y ffordd oreu a mwyaf cywir i garu Duw yw caru dyn; canys pa fath gariad yw hwnw, os wyf yn ei ddangos tuag at Dad ac etto yn cashau ei blant y rhai y mae efe yn eu caru yn anwyl.

3. Dysgais fod dyn yn rhydd weithredydd moesol, yn ddarostyngedig er hyny i gyfreithiau moesol ei Wneuthurwr, amcan holl fwriadau yr hwn yw lles a dedwyddwch ei blant. Ein bod wrth garu ein gilydd, a byw mewn tangnefedd, "yn dwyn beichiau ein gilydd," ac yn arwain ein gilydd yn llwybr cyfiawnder; yr ydym yn gydweithwyr â Duw; a phan y byddom yn gwneuthur yn wahanol i hyn yr ydym yn dwyn trallod a thrueni arnom ein hunain, am hyn yr ydym yn dioddef ac yn attebol i Dduw. Er fy mod yn credu mewn bywyd dyfodol yn hir cyn dyfod at Grist, etto nid oedd genyf un meddwl rhesymol am dano—yr oedd yn amgylchedig â gwisg o ddirgelwch. Bydd addolwyr Shiba yn cael eu derbyn i Koylas—addolwyr Krishto i Goluck, &c., lle byddant yn anadlu awelon gwahanol Baradwysau. Meddyliais lawer gwaith fod yn rhaid fod y nefoddau yma yn gyfyng iawn yn wir na dderbynient bawb. Etto sut y gallai llawenydd y nefoedd fod yn berffaith os nad ym yn cael cyfarfod etto a'r cyfeillion anwyl hyny a fuont feirw er ys llawer dydd, a gwrthrychau ein cariad a'n serch y rhai a gymmerwyd oddiwrthym ar wahanol amserau? Yr oedd fy mam yn addoli Krishto a minnau yn addoli Shiba, ac felly wrth gwrs nid oedd yr un nefoedd yn ein haros. Oni fyddai poen gwahaniad yn ein dilyn pa le bynag yr elem? Ond y mae'r cyflwr dyfodol a addewir i ni gan Grist yn fan lle mae nid yn unig ein perthynasau yn cael myned i mewn, ond y mae y rhai o'r dwyrain a'r gorllewin, o'r de a'r gogledd yn cael "cwrdd heb fyth ymadael mwy." "Yn nhy fy Nhad y mae llawer o drigfanau," meddai Crist, y rhai y mae efe yn myned i barotoi i ni. O obaith gwynfydedig yw, i un sydd yn caru holl blant Duw ac yn hoffi eu gweled, i gael byw gyda nhwy, a gweddio gyda nhwy! Am Grist fy meddwl yw, mai *Anfonedig* Duw ydyw, ei "Anwyl Fab" mewn gwirionedd. Cafodd ei godi yn neillduol gan ein Tad i adnewyddu'r byd, i gyhoeddi tangnefedd ac ewyllys da i ddynion—i ddwyn y crwydraid yn eu hol—i ddyrchafu dynoliaeth llygredig, a thori colyn marwolaeth, a dwyn Anfarwoldeb i'r goleuni. Yr oedd yn batrwn cywir Dynoliaeth,—perffaith ddyn. Yr oedd yr hyn y dylai dyn fod. Pob priodoledd a allai gael eu harddangos mewn natur feidrol a roddwyd yn eu cyflawnder iddo ef; fel nad yw yn un rhyfeddod ein bod yn ei alw yn Immanuel neu wir ddelw Duw. Yr ydym oll yn cael ein gwneuthur ar ddelw Duw; ond y mae yn drueni nad ydym ni ddim yn hir yn cadw yr argraph wreiddiol; y mae'r byd yn ei baentio drosodd; a thrwy hyny yn ein anharddu ni. Ond yr oedd y gwastadedd y safai Crist arno yn uchel iawn—ymhell uwchlaw cyrhaedd y byd. Tra ar y ddaear yr oedd yn byw ac yn rhodio gyda grasusau nefol, ac yn mwynhau cymdeithas agos a'i Duw bob amser, a bu farw fel Mab gwir ostyngedig. Yr oedd yn wahanol iawn i'r holl athrawon crefyddol ereill ag ydynt erioed wedi bendithio y ddaear a'u haddysgiadau. Yr oedd un peth neillduol ynddo ef yr hwn nid oedd wedi cyrhaedd ei berffeithrwydd mewn athrawon crefyddol ereill. Ganad beth oedd yr Athraw dwyfol hwn yn ei ddysgu, yr oedd yn ei arddangos yn ei fywyd ei hunan, gan ddangos i'r byd fod ei athrawiaethau yn wneuthuradwy.

Y mae daearyddwr yn dysgu i ni sefyllfa ac uwchder mynydd, codiad, cwrs, a syrthiad afon i'r môr, ac yn tynu *map* er eglurhad, fel y gallo ddangos y gwirionedd yn amlwg. Yn yr un modd y mae Crist yn cyflawni ei genadwri. Y mae yn dysgu i ni ostyngeiddrwydd,—wele Iachawdwr y byd yn golchi traed *castes* isel Judea! Y mae yn siarad cariad—wele! y mae yn anadlu cariad oddiar y groes, pan oedd dynion creulon a drwg yn gyru yr hoelion trwy ei aelodau diniwed! "O Dad, maddeu iddynt, canys ni wyddant pa beth y maent yn ei wneuthur!"

Pan oedd Joguth fel yma yn parhau yn ddyfal i ddarllen y Testament Newydd, aeth y swn drwy'r dref ac i glustiau ei fam, ei fod ar fedr troi yn fuan iawn yn *fwytawr-cig-eidion*, neu yn Gristion. Parodd hyn ofid mawr i'w fam, yr hon a ymdrechodd ymhob modd y gallai i'w achub rhag distryw. Y pwngc mawr ganddo yn awr oedd pa le y gallai cuddio y Testament Newydd, canys yr oedd hwnw mewn perygl rhag i'w fam ei ddistrywio. Er nad oedd hi yn gallu darllen dim, yr hyn oedd yn fraint iddo ef yn bresennol, etto yr oedd rhai o'i hen gyfeillion yn dyfod i'r tŷ yn awr ac yn y man, ac i'w ystafell yntau, ac yn dangos unrhyw lyfr a gawsent yno, a thrwy hyny yn peri gofid mawr iddi hi. Yr oedd yn ofni colli ei mab, yn ofni'r gwarth fuasai yn d'od ar y teulu trwy ei fod yn wrthgiliwr, ac yn "fwytawr-cig-eidion," fel yr oedd efe yn gorfod bod ar ei wyliadwriaeth rhag iddi ei daflu i'r dwfr. Yr oedd ychydig *dracts* a gafodd efe gan Mr. Dall, gweinidog yr Undodiaid yn Calcutta, yn lleihau ei ofid ryw dipyn, oherwydd nid oedd ei fam ddim yn gwneuthur un sylw ar ol y rhai hyn, yn gymmaint ag nad oeddynt wedi eu rhwymo yn hardd, ac nad oedd y "Beibl Sanctaidd" yn argraphedig arnynt. Y mae llyfr mawr, dangosiadus, yn wastad yn creu drwg-dybiaeth ymhlith yr Hindwaid. Ond nid oedd waith ei ofal i guddio ei lyfrau na pheidio, nid oedd modd iddo i guddio ei ganwyll dan lestr, bodd neu anfodd yr oedd yn rhaid iddo i dd'od i'r amlwg. Yr oedd dynion *bissi* yno fel mewn llawer man arall, ac yr oeddynt a'u holl ymdrech yn ceisio ei dynu i'w rhwyd. Yr oedd ei hen gyfeillion o un i un yn ei adael, a llawer o honynt yn ceisio ei ddrwg-liwio yngolwg y byd. Un noswaith mewn cyfeillach, pan yr oeddynt yn siarad ynghylch pethau crefyddol, gofynodd un iddo, "Joguth, pe byddai arnoch eisiau cael rhyw gynghor mewn perthynas i bethau crefyddol, a bod mab B—— yr olchwraig yn berffaith alluog i'w roddi i chwi, a aethech chwi ato ef, neu ynte at offeiriad?" Er fod Joguth yn gwybod mai ceisio cael cybuddiad o anffyddiaeth yn ei erbyn yr oeddynt, etto efe a attebodd, "Pe gallwn i gael aur pur mewn ffos gerllaw'r tŷ, aethwn i ddim i Awstralia am dano." Neidiodd y cyfaill ar ei draed, a chyhoeddodd felldith yn ei erbyn. Dywedodd ei fod yn ddistryw i'w deulu, yn gywilydd i'w *gaste*, ac yn fab annheilwng i'w dad; y byddai ar fyr yn gwisgo cot a het, yn bwyta cig eidion a chig moch, ac yn yfed gwin, &c. Wrth gyfarfod yn aml a'r fath driniaeth annymunol, daeth yn fwy dewr ac yn fwy doeth hefyd. Dan y fath amgylchiadau ceisiai fod "yn gall fel y seirph a diniwed fel y colomenod." Teimlai weithiau fel pe byddai pob heddwch yn ei adael, ond "yr oeddwn," meddai, "yn cadw ei ddylanwad sanctaidd yn fy nghalon, ac yn hiraethu am y *tangnefedd* hwnw nas dichon y byd ei roddi na'i gymmeryd ymaith." Er cymmaint oedd yn cael ei wneuthur i'w ddigaloni, yr oedd yn cael nerth o hyd i fod yn orchfygol. Yr oedd yn penderfynu myned, nid yn unig i blith y rhai o'r un *gaste* ag yntau, ond hefyd i blith y rhai isel a dirmygedig, publicanod a phechaduriaid India, a siarad yn fwyn ac yn gariadus

wrthynt, am bethau ag oedd efe yn gredu fyddai yn dwyn dedwyddwch iddynt yn y bywyd hwn ac yn y byd tu draw i'r bedd.

Ei fam oedd yr anhawsdra mwyaf iddo, yr oedd yn ofidus iawn ganddo ei fod yn achosi cymmaint o ofid iddi hi. Yr oedd rhywrai beunydd yn dwyn achwyniadau yn ei erbyn, ei fod yn ymweled â'r *castes* isel, ac yn dysgu athrawiaethau Crist'nogol iddynt. Weithiau yr oedd hi yn pallu bwyta dim; wylai am oriau, a thaflai ei holl lyfrau i bant. "Joguth, 'dalla'i ddim a dioddef yr holl gellwair a'r geiriau celyd yma; y maent yn achwyn eich bod yn dysgu eu plant i beidio ofni'r duwiau ac i beidio parchu'r Brahminiaid, &c. A chwi yn Brahmin yr ydych yn cymmysgu â'r *castes* isel. Yr wyf yn ofni yr eisteddwch ar giniaw gyda nhwy rhyw bryd, gan eich bod yn dywedyd nad yw *caste* ddim yn y byd. O Joguth, a ydyw Jom (angeu) wedi anghofio eich tŷ chwi?" Gofynodd iddo un tro os oedd wedi anghofio ei weddiau, nad oedd yn cymmeryd ond deng munyd iddo yn awr i fyned trwy yr hyn a gymmerai awr iddo gynt. Dywedodd yntau ei fod yn eu cofio i gyd. Ond ni chredai hi hyny, a gorchymynodd i'w mab henaf i wrando arno. Gwnaeth hwnw hyny, ac fe gafodd ei lwyr foddloni, a dywedodd wrthi ei fod yn eu gwybod cystal, nad oedd yn gofyn ond ychydig amser iddo fyned drostynt. Wedi hyny er mwyn treulio rhagor o amser, yr oedd yn arfer myned dros y gwersi Saesneg a ddysgodd yn yr ysgol gynt, megys "English Grammar is the art of speaking and writing the English language correctly," &c.

Wedi colli ei hen gyfeillion yr oedd yn hiraethu yn fawr am rai newydd. Daeth i adnabyddiaeth â Baboo C. C. S., Hindwad wedi troi yn Gristion, gwr ifanc bywiog a gwybodus iawn, ond os oedd yn cael ei gashau o'r blaen, cafodd ei gashau lawer yn rhagor oblegid hyn. Oherwydd gwyliadwriaeth ei gyfeillion nid oedd yn cael cyfleusdra i ddarllen y Testament Newydd mor aml ag a ddymunai, am hyny ceisiodd ddifyru ei hunan a llyfrau eraill, ac yr oedd yn teimlo ei fod yn cael llawer o addysg yn y rhan fwyaf o honynt. Ymhlith y llyfrau oedd ganddo, 'roedd "Bywgraphiadau Chambers," a "Thaith y Pererin." Gwerthodd Hindw ifange chwech o lyfrau Saesneg iddo, y rhai a brynwyd ganddo yn Calcutta. "Coffadwriaeth Mrs. Mundey" oedd un, ac yr oedd dau gopi o'r "Llyfr Gweddi Gyffredin," a *novels* oedd y tri arall. Yn y llyfr-gweddi y cafodd y pleser mwyaf. Teimlai ei galon yn llàmu gan lawenydd, wrth ddarllen y gweddiau yn dechreu gydag "Ein Tad," "Hollalluog Dduw a thrugarocaf Dad," &c., ond yn fuan iawn teimlodd ddyryswch nid bychan. Pan ddaeth at y Litani a darllen "Duw Dad," "Duw Fab," "Duw Ysbryd Glân," dechreuodd ofyn iddo ei hunan, ai Llyfr Gweddi Crist'nogol a brynais? Gwyddai fod Crist wedi dysgu ei ddysgyblion i ddywedydyd wrth weddio "Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd." Nid oedd yr ymadrodd "Duw Fab" yn newydd iddo canys yr oedd ymhlith yr Hindwaid Duw'r Mab, Duw'r Nai, Duwies y Nith, &c., ond yr oedd wedi ymwrthod a'r rhai hyny am unwaith, ac nid oedd yn meddwl dychwelyd atynt etto. Yr oedd yn penderfynu peidio addoli duwiau *extra* y Llyfr Gweddi ganad pa mor gymedrol bynag oedd eu nifer. Yr oedd er hyny yn teimlo'r dyryswch yn fawr, ac er mwyn ei symmud ymaith, aeth at offeiriad Crist'nogol i ofyn—"Anwyl Fab i ba Dduw oedd Crist?"

(I'w barhau.)

Y RHYFEL YN AMERICA.

AMERICA—anwyl fu hi gan dylodion
  Y byd gwareiddiedig :—faith adeg yn llon,
Eu camrau tuag yno gyfeirient yn gyson
  Holl gỳrau y ddaear yn ddiau o'r bron ;
Oherwydd mai yno y caffent hwy noddfa,
  I lechu yn dawel rhag gormes a brâd,
O ŵydd eu gormeswyr pa rai mewn dir wasgfa
  Oedd yn eu gorlethu o fewn idd eu gwlad.

Ond, Ow'r cyfnewidiad! Daeth rhyfel drwg anfad
  A'i erchyll groch-ruad annedwydd trwy'r lle,
Trychineb deyrnasa trwy gỳrau yr holl-wlad,
  Y faner goch chwyfir yn awel y Ne',
Yn arwydd o echrys alarus angerddol
  Rhwng 'i hanwar a'i gorwyllt drigolion ei hun.
Hwy larpiant eu gilydd fel llewod ffyrnigol ;
  'R henafgwr na'r ieuanc—ni noddir yr un.

Yn lle triniaw maesydd gor-gnydog eu daear
  Er caffael da ymborth, yn frodyr difrâd,
Hwy driniant erch arfau dinystriol rhyfelgar,
  A rhuthrant fel gwaedgwn i faesydd y gwa'd,
I ddarnio eu gilydd heb unryw drugaredd
  A llachar gleddyfau gorfiniog o ddur,
A llymion fidogau ymbwyant, Ow ! ryfedd,
  Olygfa ddychrynllyd sy i'w gweled yn 'wir !

Echryslef y gỳnau yn taflu pelenau,
  Fel tanllyd felltenau o'u genau i ffwrdd,
Safn rythog fagnelau, fel nerthol daranau,
  Ysgubant yn ddarnau 'rhai ddelo i'w cwrdd :
A rhwygant y ddaear gan rym eu hyrddiadau,
  Byddarant glyw dynol yn hollol â'u sŵn,
A drylliant yn gandryll y cedyrn golofnau,
  A'r cryfion ar-furiau dymchwelant mi wn.

Trystiadau olwynion y mawrion gerbydau
  Yn nghyd â'r ceffylau yn ddarpar i'r gâd,
A'r udgyrn croch-floeddiog yn arllwys eu seiniau
  Nes tanio mynwesau y lluoedd â'u nâd ;
A chyflym garlamiad y ffrom-feirch ymrythrawl,
  Trwy ganol cleddyfau, gan chwerthin hä ! ha !
Y gyrant yn ffyrnig ffroen uchel aruthrol,
  Gan rychio y ddaear mewn gorwyllt draha.

Ow ! Ow ! 'r clwyfedigion sydd obry yn gorwedd
  Mewn ingol ddir-boenau ynghanol eu gwaed ;
Gwae iddynt hwy weithian !—heb unryw ymgeledd :
  Hwy ddrylliant yn ddarnau o dan eu chwim draed.
A meirwon yn heidiau orchuddiant y fangre :
  (Och ni'r alanasdra, pa bryd 'daw i ben ?)
Cymylau o dewfwg ymddyrchant i'r nwyfre,
  A chrogant fel lleni caddugol ar bren.

Lle cynt oedd y briall a'r lili arianaidd
  Yn gwenu yn siriol, gan wasgar eu sawr,
Afonydd gor-fawrion, yn ffrydiau porphoraidd,
  O waed y brodorion orchuddiant y llawr.

Y gwerthfawr balasau, addoldai'r Anfeidrol,
A'r temlau addurnol fu gynt—ond yn awr
Terwynol eirias-dan, yn fflamiau angerddol,
Ddymchwelant yr heirddion ddinasoedd i lawr.

Ow! Ow! y dolefain sydd yno a'r anffawd!
Amddifad yn wylo, gan ddweyd, "B'le mae 'nhad?"
Ac arall yn gofyn, "B'le mae fy anwyl-frawd?
Ow! cwympodd drwy cleddyf ar faesydd y gwa'd."
Fel yna fe'u clywir o ben byw i'w gilydd,
Yn hollol blith draphlith trwy gyrau y wlad,
A meibion arfogant yn erbyn yr henydd,
A'n erbyn y meibion arfoga y tad.

O Lywydd y bydoedd! Pa hyd y gadewi
Gyd-frodyr 'ddifetha eu gilydd mor gâs,
Mewn dulliau uffernol? Gwell iddynt lonyddu,
Tywallta lawr arnynt wir heddwch a grâs.
Pa bryd y darfydda'r march coch a'i wrhydri?
Pa bryd daw'r Wen-faner i chwyfio yn rhydd?
Pa bryd daw y Gwyn farch i dawel deyrnasu,
Tywysog tangnefedd? O brysied y dydd!

Heol-geryg, Merthyr. EHEDYDD MORGANWG.

ANGEL: NEU ONESTRWYDD YN CAEL EI WOBRWYO.

GAN MARY A. DENNISON.

Cyflwynedig i blant yr Ysgol Sul.

EISTEDDAI bachgen bach tlawd ar ymyl y palmant, ac yr oedd yn ceisio meddwl. Yr oedd ei draed yn noeth, yn goch ac yn oer, ond na feindier am hyny. Yr oedd arno eisieu meddwl. Pwy ydyw y rhai yna sydd yn pasio heibio iddo, ac yn ymddangos mor gynhes ac mor gysurus? Paham y maent hwy mor ddedwydd ac mor llawen ac yntau mor drist? Nid oedd gan neb o honynt galon mor drwm, yr oedd yn sicr o hyny. Edrychodd i fynu i'r awyr las. Beth ydoedd, a phwy oedd yn byw yno? Yr oedd rhywrai wedi dywedyd wrtho y buasai Duw yn gofalu am dano. Pa le yr oedd Duw? Paham nad oedd yn gofalu am dano? O! na buasai efe yn cael gweled Duw am un foment fach, neu ynte yr angel y soniwyd wrtho am dano pan y bu ei fam farw! A welodd dynion Dduw erioed? A welsant hwy angylion erioed?

Daeth dyn âg *organ* gerllaw iddo, chwareuodd dôn, ac ysgafnhawyd calon y bachgen bach ryw gymmaint, ond ni wresogwyd ef, nid oedd dim llai o chwant bwyd arno. Yr oedd yn parhau i grynu er gwaethaf y miwsig, ac yr oedd yn teimlo yn unig iawn, ac hefyd yn anobeithiol iawn! Aeth y gwr â'r *organ* ymaith; ni wnaeth un sylw o'r bachgen bach yn ymyl y palmant, yr oedd ganddo gymmaint o bethau eraill i feddwl am danynt. Aeth y cerbydau heibio iddo, a'r certi, a byddin o filwyr; ond nid oedd y cyfan ond arddangosfa fud, aflafar, iddo ef—yr oedd yn ceisio meddwl: ac yr oedd y fath boen arteithiol yn ei fynwes. Yn fuan wele dri neu bedwar o fechgyn garw-yr-olwg-arnynt yn casglu oddi amgylch iddo, ac yn wingcio ac yn chwerthin y naill ar y llall. Y foment nesaf dyna'r iengaf o honynt yn rhoi gwthiad a thyna'r bachgen bach diniwed yn myned yn dibyn dobyn i'r gwtter. Un

ysgrech, un ochenaid ingol, a thyna y bachgen bach yn codi yn dawel ar ei draed, ac yn edrych ar ol y bechgyn, y rhai oeddynt yn awr wedi ffoi ymaith gyda banllefau o lawenydd mawr. O! mor greulon oedd ymddygiad y plant drygionus! Aeth y bachgen newynog yn ei flaen—dan grynu ac ocheneidio rhyngddo a'i hunan. Nis gwyddai pam yr oedd yn cerdded—pam yr oedd yn byw. Yr oedd yn teimlo allan o le—yn gwbl ddiamgeledd—yn grwydryn wedi colli ei ffordd—yn dyner dyner galon, fel yr oedd gwyneb sarug yn boen iddo, ond pa faint mwy oedd ergyd.

Safodd y bachgen bach yn y diwedd gerllaw cornel heol, safai standin afalau heb fod ymhell oddiwrtho, ar yr hwn yr edrychai gyda llygaid hiraethlon, yr oedd hen wr haerllug yn tendio yno. Yr oedd cacenau ar y standin, ac yr oedd geneu tlawd y plentyn bach diartref yn dyfrhau, wrth weled un bachgen ar ol y llall yn gosod ei geiniog i lawr ac yn myned i ffwrdd a'i gacen. Nid oedd ganddo ef ddim un geiniog, ac er fod newyn yn ganfodedig yn ei lygaid, ni chynnygiodd yr hen ddyn croes-yr-olwg gymmaint a thamaid iddo.

Daeth y temtiwr heibio iddo. Trôdd yr hen ddyn ei gefn. Daeth crwtyn drygionus ato—at y bachgen bach tlawd a diamgeledd—cyffyrddodd ag ef, a dywedodd, "cymmer di un a mi roddaf i ti yr hanner."

Edrychodd y plentyn bach yn syn yn ei wyneb. Gwelodd rhywbeth yn ei lygaid tost, a berodd iddo grymu; rhywbeth a wnaeth i'w galon i guro.

"Gwrando," sisialai'r bachgen, "cipia un, ni ddweda i ddim wrth neb, ac ni awn i ffwrdd ac ni bwytwn ef."

"Nid wyf fi ddim am ladrata," medda'r plentyn digartref. "O! 'r ffwl," meddai'r temtiwr creulon, ac fe'i tarawodd ef yn ei lygaid, nes darfu i'r plentyn bach i syrthio mewn poen arteithiol ar draws y wàl ac oddi yno i'r llawr. Darfu i'r ergyd ofnadwy bron ei ddallu ar y cyntaf. Cyfododd ochenaid drom i'w galon, a dywedodd, "O! pa beth yr ydwyf wedi ei wneuthur i haeddu y fath driniaeth. Ni fu yr un Duw erioed, neu ynte ni adawsai i mi ddioddef fel yma, a hyuy am fy mod yn gwrthod bod yn ddrwg." Nid wyf fi ddim yn meddwl fod un dyn erioed wedi dioddef mwy nag a ddioddefodd y plentyn bychan hwn. Yr oedd ei galon yn chwyddo yn chwerw gan ofid, ac er nas gallai ymresymu yn ei gylch, teimlai fel pe byddai rhyw anghyfiawnder mawr yn bod yn rhywle.

Cododd ar ei draed i fyned yn groes i'r heol. Yr oedd poen aruthrol yn peri i'w arleisiau i grynu.

"'Nol! yn ol! *Oh dear!* Y mae'r plentyn bach dan draed y ceffylau! 'Nol! yn ol!"

"A gafodd e lawer o ddolur, *coachman?*" Y mae'r boneddiges mor welw â'r wàl.

"Do, y mae wedi ei niweidio yn ddrwg iawn."

"Cerddwch âg ef i mewn, peidiwch ag oedi dim, cariwch ef i mewn ac i fynu i'r *bedroom* yn union. Eich diofalwch chwi oedd yr achos. Y mae yn rhaid edrych at y plentyn."

'Does dim ing na gofid yn awr. Feallai fod Duw yn gweled ei fod wedi dioddef cymmaint ag a allai, ac felly aeth â'i galon fach ddrylliog i mewn i'w gwella. "Rhyfedd mor welw y mae—mor dawel! O! gwyneb pert—gwyneb pert!" meddai'r fenyw, gan grymu yn groes i'r bachgen; a threiglai'r dagrau ar ei dalcen bach, ond nis teimlai efe hwynt.

"O! 'r bachgen bach tlawd!" medda Neli, "druan bach, byddai yn dda

genyf, pe bai wedi cadw ar y palmant; O! na byddai wedi aros gartref gyda'i fami fach."

Ond och! yn y byd hwn nid oedd un fami i ofalu am dano ef.

Daeth y *doctor*, dywedodd nad oedd e ddim wedi marw, ond y buasai yn debyg iawn o farw. Yr oedd *hospital* ar bwys. Yr oedd yn well danfon yr un bychan yno. Ond ni chaniatäai y fenyw dda hyny. Hi fuasai yn gofalu am dano ei hunan, meddai hi. Yr oedd wedi cael ei niweidio gan un o'i cheffylau hi, ac yr oedd hi yn teimlo yn ddyledswydd arni i edrych ato. Ac etto, yr oedd yn fwy na thebyg fod y plentyn bach heb un fam. Ni fuasai bachgen bach fel efe, â gwyneb mor bert, mor bur, ac mor gariadlawn, byth yn cael ei ddanfon i'r ystrydoedd fel yna pe byddai ganddo fam. Ac heb law hyny (ac fe syrthiodd y dagrau dros ei gruddiau) yr oedd y pridd, etto heb lasu, yn cuddio un bychan arall fel efe. Na, na chawsent osod y plentyn bychan o'r neilldu. Caiff aros, pa un ai byw, ai ynte marw y bydd.

Aeth y dyddiau blinion blinion heibio. Un boreu agorodd y bachgen bach ei lygaid gleision pwl, ond nid oedd yn adnabod ei hunan. Syrthiodd ei olwg ar ei ddwylaw. Yr oedd rhwymynau gwynion o amgylch i'w arddyrnau. Yr oedd y gwely yn wyn fel yr eira, ac yr oedd goleuni porphoraidd yn disgleirio dros y cyfan.

"O fy Nuw anwyl! A ydywf fi yn y nefoedd," murmurai'r plentyn bach. "Ydwyf, fe ofala Duw am danaf yn awr."

O! 'r fath weledigaethau o gariad oedd yn ciwco allan o'r cysgod tu cefn i'r gwely. Yr oedd y llygaid bywiol yn edrych cariad a llawenydd arno.

"Ac O! dacw angel!" meddai efe yn dawel fach. "Ni tharawant fi etto; ni fyddant yn ceisio genyf i ladrata afalau yma; ac feallai na fyddaf fi ddim marw byth mwy! Ac yn awr fi hoffwn weled fy mam."

"Fy mhlentyn anwyl, a ydych chwi yn well y boreu yma," meddai llais tawel tyner wrtho.

Rhoddodd dro yn araf ac yn ddiffygiol.

"Ai fy mam ydyw?" meddai efe mewn llais gwanaidd.

"O! ïe!" ac wele'r dagrau'n llifo'n gyflym gyflym i'r llawr, "ïe, fy mhlentyn anwyl, eich mam, canys mi a fyddaf yn fam i chwi, cewch chwithau fod yn fab i minnau. A gerwch chwi fi?"

"Ai'r nefoedd ydyw hwn?" meddai'r plentyn.

"Y nefoedd! fy anwylyd bychan, nage y ddaear yw; ond Duw a'ch danfonodd chwi yma i'n calonau ni, a ni a'ch carwn, ac a ofalwn am danoch. Wele, yma i chwi chwaer fach, a chwi a fyddwch ddedwydd iawn gyda hi. Cusanwch ef, Neli."

Cyffyrddodd ei gwefusau rhosynaidd a'i wefusai gwelw ef, a goleuodd gwên nefolaidd ei wynebpryd. Nid oedd dim o'r amser gynt wedi ei anghofio, ond yr oedd wedi myned heibio. Nid oedd dim bara wedi llwydo, dim llwon, dim geiriau sarug ac ergydion newy yn ei flino. 'Doedd dim cardota bara o ddrws i ddrws, dim edrych gyda rhyw genfigen hanner newynog ar gi yn cnoi asgwrn yn yr heolydd mwy. Nid oedd dim achos ofni plant drygionus mwy, y rhai ni wyddant pa le y mae eu calonau eu hunain; 'doedd dim eisieu cysgu ar risiau'r drysau mwy, a gwrando ar gynnhenau ac amrafaelion yr halogedig a'r pechadurus.

Yr oedd yr amser hwnw wedi myned heibio; ac yn y dyfodiant hyfryd oedd cariad, gartref, hyd yn oed Duw a'r angylion. Yn sicr yr oedd rhyw ysbryd rhyfedd wedi amddiffyn y plentyn hwnw ac wedi ei arwain o'r hyn

oedd yn ymddangos yn ddrwg i wir ddaioni. Yn siwr o hyn allan, buasai yn gosod ei law yn ymddiriedol yn eu dwylaw hwy, ac yn troi ei wynebpryd tua'r nefoedd. Ië, fel hyn yr oedd i fod. Yr oedd y plentyn anwyl hwn, yr hwn oedd yn barod i gymmeryd ei ddysgu, yr hwn oedd megys gèm wedi ei godi o'r domen, megys pentewyn wedi ei gipio o'r tân, etto i oleuo llwybrau tywyll y byd a'r bywyd hwn trwy ei addysgiadau sanctaidd a nefolaidd. Megys colomen yr oedd i fyned allan dros y dyfroedd ac edrych am ddeilen olew-wydden â'r hon oedd i arlantu ei newyddion da o lawenydd.

Bendithion ar bawb ynte fyddo yn dàl eu breichiau yn agored i dderbyn plant bach anghenog, ac yn gwneuthur eu cartref yn arch o ddiangfa. Ser disglaer a gânt yng ngoronau eu llawenydd, canys yn sicr nid oes gèm disgleiriach yn y byd, nac feallai yn holl dragwyddoldeb, nag enaid plentyn bach.

O'r "Christian Freeman," Mehefin, 1863. *Cyfd.* Pwy.

CREFYDD CRIST YN GREFYDD CARIAD.

Efengyl o hedd a chariad ydyw Crist'nogaeth. Y mae yn gorchymmyn i ni garu ac i wneuthur daioni i bawb, hyd yn oed i'n gelynion; i feudithio y rhai sydd yn ein melldithio ni, i wneuthur da i'r rhai sydd yn ein cashau ni, ac i weddio dros y sawl a'n niweidiant ac a'n erlidiant. Ac a all y rhai hyny fod yn ddysgyblion y rhai nid ydynt yn gwasgar dim ond casineb a malais, dyryswch ac annhrefn, ba le bynag y delont, ac yn ei wneuthur yn fater o gydwybod i ddadwreiddio oddi ar y ddaear bawb a fyddont yn gwahaniaethu oddi wrthynt? Ac am fusnes cariad, na atto Duw fod unrhyw wahaniaethau mewn crefydd yn ein gwneuthur i wrthod cariad i'n cyd-Gristnogion. * * * Nid oes un Cristion gonest, cywir, gannad pa mor gyfeiliornus bynag y byddo, nad yw e'n credu o leiaf ei fod yn yr iawn; ac yn edrych arnom ni fel mor bell oddi wrth y gwirionedd wrth wahaniaethu oddi wrtho ef, ag yr ydym ni yn ei ystyried ef am nad yw yn cyttuno â ni. Yn awr, os ydyw o herwydd y gwahaniaethau yma yn nnig, yn gyfreithlon i ni i gashau arall, y mae yn rhaid i ni addef ei fod oherwydd yr un rheswm yr un mor gyfreithlon iddo yntau ein cashau ninnau. Felly y gwrthdrown ar unwaith arwydd-nod ein crefydd, "Trwy hyn y gwybydd dynion mai dysgyblion i mi ydych, os bydd genych gariad i'ch gilydd." * * Ba faint mwy y dylem ystyried, gyda'r Apostol, gariad ein Meistr anwyl tuag atom ni, hyd yn oed pan oeddym ni etto yn elynion; a charu y rhai hyny ag y dylem obeithio eu bod, er eu holl gyfeiliornadau, yn gyfeillion iddo ef; a pheidio meddwl fod y rhai hyny yn annheilwng o'n cariad y rhai yr ydym ni yn dduwiol, yn cymmeryd yn ganiataol y bydd i Dduw eu hystyried yn annheilwng o'i ffafr? * * * Os ydynt yn gamsyniol, 'rwy'n siwr mai nid ein anghariad ni yw'r ffordd i'w hargyhoeddi o'u cyfeiliornad, ond yn hytrach gwna hwynt yn anaddas i ystyried pwys ein ymresymiadau fel y dylent, tra maent yn gweled mor lleied o barch yn ein serchiadau ni tuag atynt. * * * O gyflwr bendigedig yr eglwys filwrol yma ar y ddacar!—blaenbrawf gogoneddus o'r heddwch a'r tangnefedd hwnw y mae Duw wedi ddarparu ar gyfer ei eglwys fuddugoliaethus yn y nefoedd! Pwy na ddymunai weled y dyddiau hyny pan y byddo diwygiad cyffredinol a gwir frwdfrydedd, a pherffaith gariad, yn pasio trwy'r byd, ac y byddwn oll wedi ein huno yn yr un ffydd, yr un addoliad, yr un cymmundeb a chymdeithas un a'r llall?—pan, wedi darostwng pob balchder a rhagfarn, pob buddiannau a chynlluniau, i anrhydedd Duw a chyflawniad ein dyledswydd; y byddo'r Ysgrythyrau Sanctaidd etto yn ennill y fuddugoliaeth ar wag draddodiadau dynion, a chrefydd ddim mwy yn cymmeryd ei henw oddiwrth sectau a phleidiau, ac y byddwn oll yn foddlon ar yr un enwau cyntefig cyffredin o Gristnogion a brodyr, ac yn byw gyda'n gilydd fel mae'n gweddu i'n cymmeriad, mewn cariad brawdol a charedigrwydd Cristnogol y naill at y llall.

Archesgob Wake.

TREM DROS ARIAETH.—EUSEBIUS O NICOMEDIA, &c.

(Parhad o tudal. 187.)

Eusebius o Nicomedia, arweinydd yr Eusebiaid yn y ddadl Ariaidd, a elwid yn "Eusebius Fawr." Yr oedd ei sel dros ei athrawiaethau yn ddiarebol, ac yr oedd rhyw reddf neillduol ynddo yn ei alluogi i fesur rhesymau, dynion ac amgylchiadau; felly am ei fedrusrwydd, ei ddysgeidiaeth, a'i hyawdledd; y mae'r pethau hyn oll yn dangos pa mor gymhwys ydoedd ef i fod yn llŷs-esgob a blaenor plaid. Disgynodd o un o deuluoedd mwyaf pendefigaidd yr ymherodraeth; yr hyn oedd yn fanteisiol er ennill cymmeradwyaeth Cystenyn Fawr iddo, ac hefyd er llwyddiant ei gynlluniau uchel i gadw i lawr yr ormes Athanasiaidd.

Ar y cyntaf, yr oedd yn esgob Berytus yn Phœnicia; ond cyn hir trwy ddylanwad Constantia, y mae'n debyg, efe a sicrhaodd esgobaeth Nicomedia. Pan yr adeiladwyd Caer-Cystenyn, fe gafodd Eusebius le iddo ei hun er gwaethaf y cyfreithiau eglwysig yn y llŷs newydd; ac yn 338 O.C., efe a lwyddodd yn ei amcanion drwy awdurdod Cystenyn. Fel Arius, a blaenoriaid eraill y ddadl Ariaidd, fe fu yntau yn eistedd unwaith wrth draed Lucian yn Antioch; ac yr oedd Arius yn prisio yn fawr iawn y cydymdeimlad a'r cynnorthwy a roddai Eusebius iddo mor selog. Oblegid rhyw reswm—yng nghylch pa un y mae gwahanol draddodiadau yn anghytuno—cafodd Eusebius ei alltudio i Gallia, lle yr anfonwyd Arius hefyd. Ond yn fuan wedi i'r olaf gael ei alw adref, fe lwyddodd Eusebius i gael ei ryddhau. Wedi cael ei adferu i'w urddas blaenorol, ac i ffafr yr ymherawdwr, efe a lafuriodd yn selog i sefydlu Ariaeth. Yng Nghaer-Cystenyn, Eusebius oedd pen yr esgobion hyny a lwyddasant i gael Athanasius o'i swydd drwy gyhuddiadau gwleidyddol, &c. Diamheu fod y modd y darfu i Eusebius geisio gan Alexander ail dderbyn Arius i gymmundeb yr Eglwys, yn beth a gafodd gryn effaith ar y pryd, yn gymmaint felly ag i osod yr Eglwys Orllewinol oll dan ddylanwad Ariaeth, ar ol cael dedfryd o goll-farnedigaeth yn erbyn Athanasius; ac felly am ei waith yn cynnorthwyo i sefydlu Ariaeth yn ol penderfyniadau Cymmanfa Antioch yn 341 O.C.—"Fel gallai'r byd gael cynnyg teg, ac adeg iachawdwriaeth."

PHILO II.

Byddai olrhain helynt Ariaeth o ddyddiau meibion Cystenyn I lawr trwy'r canol oesoedd hyd amser y Diwygiad, yn eithaf tebyg i fod yn fwy anhawdd na dyddorol, ac yn ddiau yn fwy o beth nag a ellid ei wneud gyda chyfiawnder mewn erthygl o faintioli cymmedrol. Pa fodd bynag rhaid cyfaddef fod y ddwy blaid, tra parhaodd y ddadl, yn parhau i erlid a thraflyngcu y naill y llall. Gwnaed hyn gan Ariaid ac Athanasiaid, yn eu tro, fel ag yr oedd y naill neu'r llall yn ennill neu yn colli ffafr y llŷs Ymherodrol; a hyny yn y fath fodd ag i ddwyn gwarth mawr ar y broffes a wnelent o Gristnogrwydd. Am gryn amser bu yn bur ammhëus pa beth fyddai y penderfyniad—pa un ai tri pherson dwyfol ai un oedd i fod yn grefydd yr Ymherodraeth. O'r diwedd trôdd y fantol o ochr yr Athanasiaid; ac wedi hyny cymmerwyd pob gofal nid yn unig i gadw yr Ariaid dan llaw, a than y dwfr, ond i'w herlyd a'u difetha yn mhob modd. Cafodd Ariaeth, modd bynag, dderbyniad gan rai canghenau o'r genedl Gothaidd—gorchfygwyr Rhufain wedi hyny. Yr oeddent newydd cael eu dychwelyd i'r ffydd

Gristnogol: er eu mwyn hwy y cyfansoddwyd y Cyfieithiad hyglod o'r pedair efengyl i'r iaith Gothaidd gan Ulphilas, esgob Ariaidd.

Mae y rhesymiadau a'r gwrthresymiadau a ddefnyddid yn y ddadl Ariaidd wedi cael eu rhoddi i lawr yn fanwl ac yn gyflawn gan Dr. Priestley yn ei *History of Early Opinions*. Ac y mae y pwngc o hynafiaeth y dŷb Ariaidd, mewn cydmariaeth âg Athanasiaeth ar un llaw ac Undodiaeth ar y llaw arall, yn cael ei drin mewn modd teg a champus gan yr awdwr hwnw. Ond gan nad all fod y gwaith rhagorol hwnw o fewn cyrhaedd llawer o'n darllenwyr, teimlwn nas gallwn wneud gwell cymmwynas i'r darllenydd ymofyngar, a'r Cymro uniaeth yn enwedig, na'i gyfeirio at yr "Ymofyniad Tawel" (*Calm Enquiry* Mr. Belsham) yr hwn sydd yn gyfieithedig yn Gymraeg ac yn awr ar werth am bris isel. Rhoddwn hefyd rai difyniadau o'r llyfr gwerthfawr hwnw er mwyn y darllenwyr hyny nad ynt yn debygol i ddyfod o fewn cyrhaedd iddo.

Wedi gosod gerbron resymau i brofi priodol ddyndod Crist—y rhai a gyfodant oddiar dystiolaeth yr ysgrythyr ac amgylchiadau y disgyblion cyntaf (tud. 311—326), â Mr. Belsham ymlaen i nodi addefiadau a thystiolaethau hanesyddol er cadarnhau y pwngc a fyntumia: sef mai Undodiaid oedd corph y werin o gredinwyr yr oes ar ol yr oes Apostolaidd, a'r un ganlynol. Ac wedi gwneud sylwadau i'r pwrpas ar y modd parchus y llefarai Justin Martyr am danynt a thystiolaeth Origen, &c., wedi'n i'r un perwyl, ychwanega i roddi tystiolaeth ac addefiad pwysig Tertullian, yn niwedd yr ail gant, tud. 338.

"Y mae tystiolaeth Tertullian i'r eithaf yn amlwg a diddau-feddyliog. 'Y gwirioniaid, neu yn hytrach y rhai o fwriadau da, i beidio dywedyd yr annoeth a'r annysgedig, Y RHAI YDYNT BOB AMSER Y NIFER FWYAF O GREDINWYR, gan fod rheol y ffydd ei hun yn eu trosglwyddo hwy oddiwrth amryw dduwiau'r byd at yr un gwir Dduw, heb ddeall fod yr un gwir Dduw yn wir i gredu ynddo, ond ynghyd â'i drefniad ei hun (h.y. rhaniad i dri o bersonau), a frawychir wrth y trefniad (*œconomy*). Y maent hwy yn cymmeryd fod rhif a threfniad y drindod yn rhanniad yr undod. Y maent hwy gan hynny yn dal allan fod dau neu hyd yn nôd tri o Dduwiau yn cael eu dysgu gennym ni; ond y maent yn cymmeryd mai addolwyr un Duw ydynt hwy. 'YR YDYM NI,' meddant, 'YN DAL YR UN-BENNADURIAETH' (*monarchy*). Hyd yn nôd y gweithwyr Lladinaidd a floeddiant mor uchel dros yr UNBENNADURIAETH (*monarchy*), ac y tybiech eu bod yn ei ddeall yn gystal ag y llefarant ef. Ond y mae'r Lladinwyr yn dysgu bloeddio dros yr Unbennaduriaeth, ac y mae hyd yn nôd y Croegiaid eu hunain yn anewyllysgar i ddeall y trefniad."

Yna wedi gwneud sylwadau cymhwys ar y dystiolaeth ychwanegir, tud. 342.

"Oddiar y profion hyn ymddengys i'r corph mawr o Grist'nogion annysgedig, barhau i ddal egwyddorion Undodaidd, nid yn unig hyd amser Origen a Thertullian, ond hyd yn nôd hyd amser Athanasius a Jerome, ar ol cynghor Nicea. Ond os yw'r gwirionedd hwn wedi cael ei brofi, y mae yn rhagbrawf cryf mai Undodiaeth oedd athrawiaeth y Crist'nogion cyntaf, ac hefyd athrawiaeth yr apostolion a dysgawdwyr cyntaf Crist'nogrwydd. O herwydd pawb a gredent ar y cyntaf yr hyn oeddent hwy yn ei ddysgu, a'r annysgedig fuasent yr olaf i gyfnewid. Dynion myfyrgar bob amser ydynt y cyntaf i ddechrau cyfnewidiad yn y meddwl cyffredin. Os bydd y meddwl cyffredin. yn gywir, dynion myfyrgar ydynt y cyntaf i ddwyn i mewn gyfeilior-

nad: os bydd ef yn ŵyrgam, hwy ydynt y blaenaf i'w ddiwygio a'i gywiro. Yn raddol ac yn araf y mae'r cyfnewidiad yn y corph lluosog o bobl annysgedig: ond yn gyffredin, yng nghylch-rediad amser, y mae'n dilyn cyfarwyddyd y dysgedig. Yr hyn sydd yn awr yn athrawiaeth boblogaidd oedd unwaith yn cael ei gyfyngu i'r philosophyddion, ac a wnaeth ei ffordd ym mhlith y bobl cyffredin yn raddol ac araf iawn, a chydag anhawsdra mawr. Llygredigaethau Crist'nogrwydd a gawsant eu dwyn i mewn gan y dysgedig a'r ymofyngar: a chan y dysgedig a'r ymofyngar y dechreuodd y diwygiad. Gan ddynion o'r desgrifiad hwn y mae ef o hyd yn cael ei ddwyn ym mlaen, ac y mae yn myned ar gynnydd yn weledig, er yn araf, mewn gwrthwynebiad i floeddiadau'r anwybodus, ac i ddyfais neu drawsder yr elw-geiswyr. Y bydd i'r gwirionedd yn y diwedd i ennill yr oruchafiaeth, trwy ei rym naturiol ei hun, wedi ei gynnorthwyo gan amser, ni all fod un rhesymmol amheuaeth: a phan unwaith yr ail-sefydlo ei ymherodraeth ogoneddus, nid oes un sail i ofni y bydd i oes y tywyllwch ddychwelyd drachefn. Y ragfaruau a rwystrant ei fynediad yn awr a weithredant oll bryd hyny o'i blaid: tra y bydd i danniad cyffredinol gwybodaeth, a chynnydd diwygiad dynol, yr hwn sydd yn barhaus yn myned ym mlaen gyda mwy-fwy o gyflymdra, i osod rhwystr tragywyddol nad ellir myned trosto, ar ffordd dychweliad y cyfeiliornadau a'r ffieidd-bethau gwarthus hyny, y rhai a fuant dros gynnifer o gannoedd o flynyddoed yn waradwydd rheswm a dinystr Crist'nogrwydd." BELSHAM.

NOD YR ATHRONYDD.

NÔD yr athronydd ddylai fod gwirionedd yn unig, a dylai wrthod bwrw tuedd ymarferol ei ddamcaniadau. Os yn wir—safent, os yn gau—gadawer iddynt syrthio. Ond p'un ai byddont hyfryd neu anhyfryd, cysurlawn neu anghysurlawn, dyogel neu beryglus, sydd gwestiwn nid i athronwyr ond i ddynion ymarferol. Darfu i bob gwirionedd a osodwyd gerbron erioed, dros amser achosi drwg, cynyrchu anesmwythder, ac yn fynnych annedwyddwch: weithiau trwy aflonyddu ar drefniadau cymdeithasol neu grefyddol, ac weithiau yn unig trwy ddryllio cymdeithasiadau hen a hoffus. Yn unig ar ol rhyw gymmaint o yspaid, a phan y mae ffram-waith pethau wedi cyfaddasu ei hun i'r gwirionedd newydd, y gwna ei effeithiau daionus orbwyso; a pharha y gorbwysiad i fyned rhagddo, nes o'r diwedd nad achosa y gwirionedd ddim ond da. Ond ar y dechreu y mae yn wastad niwed. Ac os bydd y gwirionedd yn fawr iawn, yn gystal ag yn newydd mae y niwed yn ddwys. Gwneir dynion yn anesmwyth; ciliant yn wysc eu cefn; nis gallant ddal y goleuni disymwth; dilyna anorphwys cyffredinol; mae gwyneb cymdeithas yn cael ei gynhyrfu, neu feallai ei ddirdynu. Fe ddinystrir hen *interests* a hen gredöau cyn y crëir rhai newydd. H. T. BUCKLE.

RHAGFARN.

MAE rhagfarn yr hen amser wedi colli ei harteith-glwydydd a'i hystanciau, ac y mae ei daear-dai ryw gymmaint allan o ffafr yn y wlad hon; ond y mae'r yspryd yr un. Os na ellwch losgi dyn, enllibiwch ef; os na ellwch yn ddyogel osod ar ei garictor personol, sisialwch ryw ogan-tan-ddannedd am dano; lled awgrymwch yr egwyddorion sy'n ei gymhell i weithredu; enynwch ddrwg-dybiaeth am dano mewn mànau lle y bydd i'ch dylanwad weithredu niwed iddo; gwnewch iddo deimlo os nid yn ol dull yr hen amser, eto mor bell ag y bo modd yn ol dull yr amser presenol, mai gwell iddo beidio gwahaniaethu oddiwrthych chwi, neu os gwnaiff, mai gwell iddo gadw ei syniadau anflasus iddo ei hun. Yn enw tegwch, gofynwn, ai nid hyn yw tuedd parti-sel benboeth? Ac yn enw synwyr cyffredin, gofynwn, os nad erledigaeth yw hyn, *beth yw?* Cawn yma lys yr hen sarff, "y cerdded ar y dòr," y chwyth-lais *(hiss)*, a'r cyfan—ag sy'n aros—o'r colyn.—*British Quarterly Review.*

THEODORE PARKER—EI OLYGIADAU AR YR ENW CRISTION

Y MAE ein darllenwyr ond odid wedi clywed neu ddarllen am y gwr enwog, Theodore Parker o America, a rhai o honynt—pwy gymmaint nis gwyddom —wedi darllen ei waith; yr hyn nid y'm ni hyd yn hyn wedi cael cyfleusdra i wneud, oddieithr mewn rhanau gwasgaredig. Nid y'm yn cymmeryd arnom i gyhoeddi ein barn lle mae ein gwybodaeth mor ammherffaith. Ond i ochelyd camddeall—a chan fod y dernyn cyfieithedig a ganlyn o waith Parker yn ymddangos yn ddienw—teimlwn fod tegwch a chyfiawnder yn gofyn i ni hyspysu, nad y'm ni yn gweled achos i edrych ar Mr. Parker fel *awdurdod* cymhwys er penderfynu priodol ystyr yr enw Cristion. Yr ydym yn credu, fel y gwnai Undodiaid Boston mae'n debyg, yn *nwyfol* neu *oruwchnaturiol* darddiad crefydd Crist, ac felly yn myned at yr Iesu, ac yn cymmhell eraill i fyned atto fel "dysgawdwr wedi dyfod oddiwrth Dduw," ac am hyny yr y'm yn methu cydymdeimlo â'r golygiadau â pha rai y cymmhellai Parker i ddynion fyned at Grist.

Yr oedd Mr. Parker, wrth bob hanes, yn ddyn da a rhinweddol iawn: yr oedd hefyd yn proffesu ei fod yn ddilynwr i Grist mewn rhinwedd a daioni; ac ar hyn o broffes, ac ar y tir hyny yn unig, ymddengys, y claimiai yr enw Cristnogol iddo ei hun a'i ganlynwyr. A rhaid addef y gallasai, ar y tir hwn, ddangos gwell hawl i'r enw na lluaws o Gristnogion anghysson eu hymddygiad. Ond gyda phob parch i rinwedd a daioni, yn Mr. Parker ac eraill, gadawer i ni ddywedyd ein bod ni, wrth ymwneud â chrefydd yn ymofyn am rywbeth yn rhagor, ac yn gostyngedig hyderu ein bod, wrth ymofyn, yn cael rhagor yn Nghrist nag esiampl berffaith i'w hefelychu, er fod hyny hefyd yn un o'r pethau penaf. Haera Parker fod "Crist yn credu mewn *diafol personol*," yr hyn yn ddiau yr ystyrai ef yn dŷb gyfeiliornus; ac felly rhodda ar ddeall ei fod yn ystyried fod golygiadau'r Iesu yn ddiffygiol ac ammherffaith ar y pwnge mwyaf ei bwys, sef, perffeithrwydd llywodraeth y Tad Anfeidrol; yr hyn beth etto a ymddengys yn bur anghysson â'i waith yn llefaru am yr Iesu fel "y cynrychiolydd uwchaf o Dduw y gwyddom am dano." Ond diau nad teg i ni farnu yn erbyn hawl neb i'r enw oddiar anghyssondebau a weler ynddo. Ac nid y'm ni yn sicr ein bod yn deall y frawddeg olaf, lle mae Cristnogrwydd a gwirionedd yn cael eu cyferbynu â'u gilydd, fel pe baent yn ddau beth gwahanol. Wrth geisio gochelyd rhoddi lle i gam-ddeall, dichon y gwelir ein bod wedi dywedyd mwy nag a ddylem, a ni yn gwybod cyn lleied am waith Theodore Parker.

Pa un ai darfu i Parker newid ei farn ar y matter, a'i fod, fel y clywsom ddywedyd, cyn diwedd ei oes yn dewis cael ei alw wrth yr enw *theist* yn hytrach na'r enw *Cristion*, nid oes genym ni fodd i'w benderfynu.

Nid yw gweithiau Parker o fewn cyrhaedd i ni ar y pryd hwn. Ond y mae genym lawn hyder yn nghywirdeb y cyfieithiad a roddir yn y dernyn canlynol. Barned y darllenydd drosto ei hun.

EGLWYS GRISTIONOGOL.

"Heddyw, ar eich cais yr wyf yn dechreu yn rheolaidd ar fy ngweinidogaeth yn eich plith. Pa beth ydym yn wneyd? Pa beth yr amcanwn ei wneyd? Yr ydym yma i sefydlu eglwys Grist'nogol; ac eglwys Grist'nogol, yn ol fel y deallaf fi, yw corff o wyr a gwragedd wedi uno ynghyd gyda'r dymuniad cyffredin am ragoroldeb crefyddol, a chyda pharch cyffredin i Iesu o Nazar-

eth, gan edrych arno fel yr esiampl odidocaf o foesoldeb a chrefydd—fel y cynllun, o ganlyniad, i ni yn hyn o beth. Dichon i'r fath eglwys feddu llawer o ddefodau, fel ein brodyr o eglwys Rhufain, neu ond ychydig, fel ein brodyr Protestanaidd, neu ddim defodau o gwbl, fel ein brodyr y Cyfeillion (Crynwyr). Hi a all er hyny fod yn eglwys Grist'nogol; oblegid y peth penaf, o ran sylwedd, a'i gwnai yn gorff crefyddol, yw yr undeb gyda'r dyben i goleddu cariad at Dduw a dyn; a'r peth penaf, o ran ffurf, a'i gwna yn gorff Crist'nogol yw y parch cyffredin i'r Iesu, yn cael ei ystyried fel y cynnrychiolydd uwchaf o Dduw y gwyddom am dano. Nid y ffurf, pa un ai o ran y defodau neu yr athrawiaeth, ond yr yspryd, sydd yn cyfansoddi eglwys Grist'nogol. Dichon i ffon gynnal hen wr, neu dichon i ddyn ieuanc ei chario yn ei law fel tegan, ond cerdded yw cerdded, pe na b'ai gan y dyn ffon er nac addurn na chynhaliaeth. Gall yspryd Crist'nogol hanfodi odditan ddefodau ac athrawiaethau o'r mwyaf amrywiol. Byddai yn galed dweyd nad yw dyn yn Gristion, am y cred yn athrawiaeth y Drindod neu'r Pab, tra na ddysgodd yr Iesu y fath athrawiaeth; ynfyd fyddai dweyd nad yw un yn Gristion am y gwâd fodoliaeth y diafol, serch y gwnai yr Iesu ei gredu. Byddai dodi'r enw o Gristion i ymddibynu ar fod un yn credu y cyfan sy'n cael ei draethu gan yr ysgrifenwyr lliosog yn y Beibl, byddai mor wrthun a dodi hyny i ymddibynu ar fod un yn credu yn holl eiriau Luther, Calfin, neu St. Augustine. Nid yw i mi ddweyd nad yw dyn, o ran golygiadau *(theoretically)* yn Gristion, am y cred fod caeth-wasanaeth yn sefydliad Dwyfol a Christ'nogol; fod rhyfel yn foddus gan Dduw—gan ddweyd gyda'r Hen Destament fod "yr Arglwydd ei hun yn Rhyfelwr," yn dysgu dynion i ymladd, gan felldithio y cyfryw a wrthodant;—neu am y cred fod holl ddynolryw yn cael eu geni yn gwbl lygredig, a'r rhan fwyaf o honynt i gael eu damnio am byth gan "Dduw eiddigus," yr hwn sydd "yn ddigllawn beunydd wrth yr annuwiol," ac nad yw yr ychydig i gael eu "cadw" ond yn unig oblegid i Dduw yn anghyfiawn gospi dyn diniwed er eu mwyn. Ni ddywedaf nad yw y dyn yn Gristion serch y cred yr holl bethau alaethus a adroddir am Dduw mewn rhai rhanau o'r Hen Destament, er nas gwn am ond ychydig o athrawiaethau mor elyniaethus i wir grefydd ag y mae rhai o'r cyfryw wedi dangos eu hunain. Yn ein dyddiau ni mae hi wedi dygwydd yn rhyfeddol fod sect fechan, yn cael ei hwtio a'i galw yn *Inffideliaid* gan y gweddill o Gred, yn gwadu'r enw o Gristion i'r cyfryw a gyhoeddus wrthodant wyrthiau'r Beibl. Diau y gwnaiff amser gywiro'r camsynied hwn. Tân yw tân, a lludw yw lludw, dywedwn ni a ddywedwn; gwnaiff y naill a'r llall weithredu yn ol ei ryw. Yn awr, os yw Crist'nogaeth y grefydd i bawb ym mhob lle ac amser *(absolute religion)*, rhaid y caniata bob cred ag sy wir, a dichon iddi hanfodi a chael ei dadblygu mewn cysylltiad a phob ffurf a fo gyson â'r fath grefydd, ac a'r gradd o honi a gynrychiolir gan yr Iesu.

"Gweithreda eglwys Grist'nogol mewn dwy ffordd: yn gyntaf ar ei haelodau ei hun, ac yna trwyddynt hwy, ar eraill y tufaes i'w chylch. . . . Dyben cyntaf y fath eglwys ynte yw ein helpu i ddyfod yn Grist'nogion. Yn awr sylwedd Crist'nogaeth yw Duwioldeb—Cariad at Dduw, a Daioni—cariad at ddynion. . . . Ni ddylai eglwys Grist'nogol osod llyffetheiriau ar ddyn; dylai feddu ar undeb bwriad ond gyda'r rhyddid mwyaf cyflawn i'r person. Pan aberthoch y person *(individual)* i'r lliaws mewn eglwys neu wladwriaeth, mae eglwys a gwladwriaeth yn myned yn dramgwydd, yn graig rhwystr ar ffordd diwygiad, a rhaid iddynt farw neu fendio.

. . . Wrth ddyfod yn Grist'nogion na fydded i ni ddarfod a bod yn ddynion; nid hyny yn unig, nis gallwn ddyfod yn Grist'nogion heb yn gyntaf ddyfod yn ddynion. Byddai yn anghrist'nogol i garu Crist'nogaeth yn fwy na gwirionedd, neu Grist yn fwy na dyn.

THEODORE PARKER.

Dechreu ei Bregeth pan yn ymgymeryd a'r swydd o Weinidog i'r Eglwys Gynulleidfäol (yr 28ain) yn Boston, Ionawr 4, 1846.

GALAREB,

er cof am Mrs. Margaret Dafis, Maes-y-golau, Llanfihangel Ystrad, Ceredigion.

RHYW achos i gwyno sydd beunydd i'w glywed,
Fod angeu yn tori rhai gwerthfawr o'r byd;
Mae "Ayron" yn wylo ei dagrau tryloewon,
Wrth gofio 'u gwasanaeth maent heddyw yn fud.
Un o'r rhai hyny, hen wraig "Maes-y-golau,"
Sydd heddyw mewn beddrod yn dawel bob darn,
Ac yno yr erys nes gwawrio y borau;—
Y geilw 'r archangel farwolion i farn.

O ffynnon ei phrofiad gwnaeth yfed yn helaeth,
Ac hefyd o afon tangnefedd a hêdd;—
Pur addas f'ai cerfio yn nghyd a'u goreuro,
"Gwir Gristion oedd Pegi," ar garreg ei bedd;
Ond etto traul amser y cerrig calettaf,
A gwna eu holl addurn yn chwilfriw a gwael,—
Pryd hyny bydd enw hen wraig "Maes-y-golau"
O fewn i'r gymdogaeth yn anwyl ar gael.

Gwraig ydoedd yn deall ei gwaith yn rhagorol;
Hi wyddai 'i gorchwylion fel "Byd-wraig" i gyd;
Fe erys colofnau o'r hyn a gyflawnodd,—
Yn hwy na phe 'u cerfid ar fynor y byd:
Ei rhyfedd fedrusrwydd a'i hëang wybodaeth,
A'i gwnaeth yn alluog i gerdded ei thaith;
Gan wreng, a chan fonedd, enillodd gymeriad,
Yr hyn sydd hanfodol i un o'r fath waith.

Ymhyrth cyfyngderau bu llawer anwyl-fam,
Yn disgwyl bob enyd am weled ail fyd;
Ond hi o'i deheurwydd gan Dduw fu'n offeryn
I achub eu bywyd yn agos i gyd.—
Yn dalgryf a gwrol mae llawer un heddyw,
Fu'n faban eiddilaidd ar gledr ei llaw;—
Gall sefyll ar geulan ei beddrod a d'wedyd,
"Mo'i thebyg ni welwyd, ni welir, ni ddaw."

Ei bywyd rhinweddol fel dynes a Christion;
Wnaeth felus ei chofiant i'w theulu erio'd;
Bydd llawer cymdoges yn tywallt ei dagrau
Ar fedd y wraig enwog i glymu ei chlod.—
Pan ydoedd yn rhodio hyd glyn cysgod angeu,
O'r achos mae Eglwys y *Cribin* yn brudd:
Er hiraeth perthynasau o'n canol ehedodd,
Yn nghol yr addewid i ardal y dydd.

Y daran dynghedaf a'i thanfyllt erchrydus,
I beidio anurddo na drygu ei bedd,

Tra byddo hi yn huno ar wely marwolaeth,
Hyd nes y daw'r boreu i'w galw i'r wledd;
Dymunaf addurno ei beddrod a blodau
Er dangos lle gorwedd 'nol darfod a'i gwaith;
Bydd cof am ei rhinwedd o fewn i'r gymdogaeth,
A theimlir y golled yn fawr ac yn faith.

CAWR AYRON.

Mr. GOL.,—Ceisiodd y wraig dda gan yr awdwr i ganu ar ei hol os byddai yn hwy na hi byw; flynyddau cyn ei marwolaeth: drwg genyf nad wyf yn gwybod yn iawn y dydd o'r mis y bu farw, ac yr wyf yn ddyledus am yr adysgrif bresenol o'r alareb i Mrs. Jenkins, Rhydybenau, yr hon a'i hadysgrifenodd o'r "Cymro" am y mis y bu farw. Yr wyf, Barch. Syr, yn dra diolchgar i chwi am ei danfon i mi i'w hail-olygu; ac yr wyf yn llwyr gyd-weled a chwi mewn perthynas i'r gwallau pa rai a nodasech fel yn ymddangos yn ymylu at "wawdiaith;" eud yn holloi anfwriadol beth bynag genyf pan ei cyfansoddais er ys i bedair neu bum mlynedd yn ol. Da genyf eich hyspysu mai ail-olygu yr alareb oeddwn, pan dderbyniais y newydd o'm derchafiad i'r swydd o *Inspector of Police* yn y lle hwn. Cael gweled yr "alareb" yn eich Cyhoeddiad defnyddiol a rydd i mi a llawer foddhad.

Ydwyf, yr eiddoch, T. J. BEYNON.

Newnham, near Tenbury, Worcestershire, Awst 30, 1863.

Gohebiaethau.

At Olygydd yr Ymofynydd.

BARCHUS OLYGYDD,—SYR,—Gan fy mod yn dderbynydd cyson o'r YMOFYNYDD, byddai yn foddhaol genyf gael ychydig o eglurhad genych chwi, neu rai o'ch gohebwyr galluog ar Rhufeiniaid y 9fed benod a'r 5ed adnod,—"Eiddo y rhai *yw* y tadau; ac o'r rhai *yr hanodd* Crist yn ol y cnawd, yr hwn sydd uwchlaw pawb, yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd. Amen.

ANTITRINITARIAN.

[Rhoddir esponiad llawn o'r adnod yn yr "Ymofyniad Tawel." Ond na fydded hyny yn rhwystr ar ffordd neb o'n gohebwyr i anfon eu hesponiad hwy i'r YMOFYNYDD.—GOL.]

GOFYNIAD.

CHWI ddeiliaid yr Ysgol Sabothol,
Mae genyf ar garol un gair,
Chwenychwyf gael ateb boddhaol,
Mor eglur a Ioan a Mair;
Pa le rhwng cloriau y Beibl,
Mae'r hynod benodau i'w cael,
Pa rai ydynt o'r un cynwysiad?
Maent ynddo i'w gweled heb ffael.

Tyr'd ati'n ymchwilgar o brysur,
Rho heibio'th fusgrellni ddifoes,
A dangos beth elli di wneuthur
Er cynydd a gwelliant i'r oes.
Os rhoddi atebiad yn bendant,
Mae'n hawdd iti wneud meddaf fi;
Coronir dy llafur â llwyddiant,
Efallai â mawredd a bri.

Aberdar. UN O BLANT YR YSGOL.

Hanesion Cartrefol a Tramor.

Y LLYS A'R WEINYDDIAETH.—Mae y Frenhines a'r teulu brenhinol, ar ol eu dychweliad o Germany, wedi myned i fwynhau y tymmor arferol yn Scotland; ac y mae Tywysog Cymru a'i Briod ieuange yn cymmeryd eu difyrwch yno heb fod yn neppell. Y mae yn debyg fod ei Mawrhydi yn hoff o ymweled â Balmoral—ac nid rhyfedd, am yr hoffai ei phriod ymadawedig, y Tywysog Albert, yn fawr y mwyniant a gawsai yno yn yr Hydref yn neilldiol. Yn ystod y flwyddyn ddiweddaf, trwy orchymyn y Frenhines, gwnaethpwyd cofadail hardd mewn coff-

adwriaeth o'r Tywysog ymadawedig, a chyda geiriau eraill o barch a chariad teilyngol i'r marw, cerfiedig ar y côf-adail yr oedd—Ow! dramgwydd arswydus! rhai geiriau cymhwys ag oeddent wedi eu tynu allan o'r *Apocrypha;* yr oedd hyn yn anfaddeuol braidd i gydwybodau rhai o barchedig ddilynwyr John Knox. Ond maddeuadwy neu beidio, fe bassiodd hyny o beth; a gweinidogion yr eglwys Bresbyteraidd (sefydledig)—nid esgobyddion—sydd ar y tymmor hwn yn gweinyddu i'w Mawrhydi ac i'r teulu brenhinol mewn pethau crefyddol. Iarll Russell yw y prif weinidog sydd yn bresenol mewn gwasanaeth ar y Frenhines; yr hyn sydd wedi rhoddi cyfleusdra i'r gwleidiadur enwog i wneud rhai areithiau da yn un o'r trefi cymmydogaethol. Yn y cyfamser ymddengys fod olwynion y llywodraeth yn myned ymlaen yn hwylus a dirwystr. Ond teimlir peth pryder gan y pleidiau gwrthwynebol ynghylch pump neu chwech o etholiadau ag sydd i gymmeryd lle yn fuan iawn, gyda golwg ar, pa un o'rpleidiau fydd ar y cyfan i ennill neu golli drwyddynt.

Yr Eisteddfod Genedlaethol. Cynnaliwyd yr Eisteddfod yn Abertawe, dechreu'r mis diweddaf, yn ol yr hyspysiad—gydâ chryn rwysg a chymeradwyaeth; ond, fel y gallesid disgwyl, nid heb roddi tramgwydd a siomedigaeth i rai. Y peth mwyaf hynod mewn cyssylltiad â'r Cynnulliad eleni ydoedd y sylw a gymmerwyd o hono gan y Wasg Seisnig. Y *Times*, y *Daily Telegraph*, a'r *Spectator* a ymosodasant yn ddiarbed ar y sefydliad. Pan yn siarad mor wawdlyd a dirmygus am beth sydd mor uchel yn ngolwg y Cymry, ychydig a wyr y Saeson hyny pa mor ddiglion y siaradir am danynt hwy ac am eu beirniadaeth. Braidd, dybygem, y maddeuir i'r *Spectator* am ddywedyd "fod y Cymry yn cystadlu am wobrwyon, ac yn ewynu allan *yr hyn a alwant* yn farddoniaeth, yn yr iaith a ystyriant hwy yr ardderchocaf yn Ewrop. Ac y rhenir y wobr yn gyffredin, rhwng y gwahanol gystadleuwyr rhag ofn colli gwaed yr ymgeisydd buddugol." Dywed ysgrifenydd yn yr *Athenæum*, yn y feirniadaeth ar y *canu corawl*, fod y Cymry yn hyn o beth wedi cael eu cynhyrfu gan y symmudiad yn Lloegr a Scotland; a bod y corau a gymmerai ran yn y cynnulliadau hyn—corau wedi eu gwneud i fynu yn unig o weithwyr yn y pyllau glo, &c., ac ar hyd ffermydd—yn rhoddi gwerth a dyddordeb yn yr Eisteddfod lawer iawn uwch na boddhau cywreinrwydd yn unig."

Arglwydd Russell yn Blairgowrie.—Mae y sylwadau a wnaeth Iarll Russell, mewn ciniaw gyhoeddus a roddwyd iddo yn y lle uchod ar y 26ain o Fedi, wedi tynu ac yn teilyngu sylw neillduol ar yr adeg bresennol; am eu bod yn cynnwys hysbysiaeth swyddol ac awdurdodol ynghylch gweithrediadau, amcanion a phenderfyniadau y llywodraeth Brydeinig mewn perthynas â thri phwngc pwysig y dydd—Poland, Mexico, ac America. O barth i achos Poland dywedodd—

"Ei fod, o'i ran ei hun, yn barod, os bydd eisieu, i amddiffyn y cwrs a gymmerwyd gan Lywodraeth ei Mawrhydi mewn undeb â Ffrainge ac Awstria, ar y cwestiwn hwnw; ond ei fod eisioes wedi dyweyd, yn ei le yn y Senedd, ac ei fod etto o'r un farn, nad yw rhwymedigaethau a manteision Lloegr yn gofyn i ni fyned i ryfel dros Poland. Yn coleddu y farn hono, ei fod yn meddwl nad ydyw yn iawn i ni gondemnio Rwssia, os nad ydym yn barod i fyned i ryfel i wrthsefyll ei thrais. Modd bynag, fod rhaid iddo ddywedyd ei fod yn synu fod Rwssia, ar ol amryw o ohebiaethau, wedi ymddwyn fel y gwnaeth. Ond chwanegodd y geiriau pwysig—fod Rwssia trwy wrthod cyflawni cyttundeb Vienna, trwy yr hwn y rhoddwyd Poland iddi, wedi rhyddhau Galluoedd Ewrop o bob rhwymau i sicrhau iddi y meddiant o'r wlad hono.

Gyda golwg ar achos Mexico—sylwodd nad oedd yr ymyraeth â'r wlad hono a wnaed mewn undeb â Spain a Ffrainge ddim yn myned ymhellach na gofyn iawn i'r deiliaid ag oeddent wedi cael eu niweidio gan wŷr Mexico, yn eu personau neu eu meddiannau; ac wedi cyrhaeddyd yr amcan hwnw, ac yn gweled fod un o'r tri Gallu—Ffrainge—yn penderfynu cario yr ymyraeth ymhellach, er cyfryngu yn materion cartrefol y wlad, darfu Lloegr neillduo ar unwaith oddiwrth y cynghrair, gan olchi ei dwylaw oddiwrth unrhyw ymyraeth pellach. Dywedodd ei fod ef (Arg. R.) wedi gwrthdystio lawer gwaith yn erbyn y fath gyfryngiad â materion cartrefol cenedl arall, i ddweyd wrthynt pa ffurf-lywodraeth y dylent ei mabwysiadu, a phwy fydd eu llywodraethwyr; fod y fath gyfryngiad yn gyffredinol yn cael ei gondemnio gan y canlyniadau a ddeilliant oddiwrtho. "Dyma yw ein sefyllfa bresen-

nol," ychwanega. "Os ydyw pobl Mexico yn cymmeradwyo y cyfryngiad sydd wedi cymmeryd lle, os ydynt yn dewis sefydlu brenhiniaeth, os ydynt yn dewis ufuddhau, os ydynt yn dewis heddwch a llwyddiant yn Mexico ar y telerau hyn, dywedaf, o'm calon, bydded iddynt wneuthur hyny. Os ydynt wedi eu mabwysiadu hwynt, dywedaf mai nid ein dyledswydd ni ydyw eu rhwystro. Nid oes genym hawl i ymyryd â'r ffurf-lywodraeth a ddewisir ganddynt hwy eu hunain."

Yn ei sylwadau ar y rhyfel cartrefol yn America, mewn attebiad i'r achwyniadau a ddygir gan yr Undebwyr ar un llaw, a'r Deheuwyr ar y llaw arall, amddiffynai Arglwydd Russell y cwrs a gymmerwyd gan lywodraeth Prydain, a'u gwaith yn gochelyd gwneud ymyraeth yn y mater, na chynyg cyfryngu rhyngddynt. Pan oedd pum miliwn o wŷr rhyddion yn cyhoeddi eu hunain yn llywodraeth annibynol, nad ellid llai nag edrych arnynt fel pleidiau mewn rhyfel *(Belligerents)*. Ac er maint ein casineb at gaethwasiaeth, na byddai yn ddoeth nac yn llesiol i ddynoliaeth i ni ddadgan na bydd dim a wnelom âg un genedl sydd yn goddef caethwasiaeth yn eu plith. Bod llywodraeth Prydain yn ewyllysio bod mewn heddwch a chyfeillgarwch â llywodraeth yr Unol Daleithiau, ac yn barod i wneud, er mwyn hyny, bob peth a ofynir gan ammhleidgarwch; ond ar yr un pryd na bydd iddynt fabwysiadu un mesur y meddyliant ei fod yn ddrwg, na cheisio plygu y gyfran leiaf o gyfraith Lloegr mewn canlyniad i fygythion gwledydd eraill.

Y Negroaid.—Y mae y Parch. W. H. Channing, nai y Dr. Channing, yr hwn sydd newydd ddyfod trosodd o America i ymweled â'r wlad hon, wedi bod yn traddodi darlithoedd yn Liverpool, Manchester, a lleoedd ereill, ar y canlyniadau o ryddhad y caethion yn America. Rhydd ganmoliaeth uchel i fedr, diwydrwydd, a moesoldeb y Negroaid a ryddhawyd. A ganlyn yw ei dystiolaeth:—"Y mae eisoes ddeg a thrugain o blanhigfeydd cotwm yn cael eu gweithio yn nyffryn y Mississippi gan Negroaid wedi eu rhyddaau; ac yr oeddynt yn codi mwy o gotwm a gwell cotwm ar y planigfeydd hyn nag a ellid ei godi o dan y caethfeistr mwyaf llwyddiannus dan y nefoedd; a heriaf un dyn i'm gwrthbrofi." Caent gyfleusdra, cyn i'r gauaf nesaf fyned drosodd, i brofi gwirioneddd ei eiriau, a rhoddai ei air iddynt y caent gystal cotwm ag a gawsant erioed, ac am brisiau îs, a hyny trwy lafur rhydd. Yr oedd y llwyddiant oedd wedi dilyn rhyddhad y caethion yn rhagori ar ddim a ellid ei ddangos yn India'r Gorllewin, a hyny hefyd yn nghanol rhyfel cartrefol: a pha beth na allent ei wneud mewn amser o heddwch? Rhoddodd ddisgrifiad hefyd o'r cyfnewidiad cyflym sydd yn cymmeryd lle yn y Gogledd yn ffafr y Negroaid. Mae lliaws oedd o'r blaen yn eu dystyru, yn awr yn eu parchu. Cyfeiriodd at fachgen du oedd yn gydysgolor â mab Edward Everett, ac a ennillodd y wobr uwch ei ben. Barnai Mr. Channing nad oes dim yn eisieu ond addysg i godi y Negroaid i sefyllfa mor uchel ag Ewropaid.

Y Cyfandir.—Y mae'r Ffrangcod yn parhau i gydymdeimlo yn wresog yn achos Poland. Cynnyrchwyd cyffro anghyffredin yn Paris ychydig wythnosau yn ol gan waith y *Moniteur*—newyddiadur swyddol yr Ymherawdwr—yn cyhoeddi dadganiad pwysig Llywodraeth Genedlaethol Poland, yn yr hwn y mae yn atteb brys-lythyrau y Tywysog Gortschakoff, ac yn amlygu ei bwriad i ymladd yn erbyn Rwssia hyd yr eithaf. Yr oedd yn llenwi wyth colofn o'r *Moniteur*. Gan nad ydyw ond dadganiad pobl nad ydynt etto wedi eu cydnabod yn rhyfelblaid *(belligerents)* edrychir ar waith y *Moniteur* yn ei gyhoeddi fel amlygiad o benderfyniad yr Ymherawdwr i ddial ar Rwssia am ei hattebiad sarhaus, ac i gymmeryd agwedd fwy bygythiol gyda golwg ar achos Poland. Yn y cyfamser y mae y Pwyliaid yn myned ymlaen â'r gwrthryfel yn bur benderfynol a llwyddiannus ag ystyried yr amgylchiadau. Ond dywedir, fod sefyllfa pethau yn myned yn waeth bob dydd yn Warsaw, dan lywodraeth greulon Gen. Berg.

America.—Ar y 19eg a'r 20fed o Fedi bu brwydrau dychrynllyd rhwng byddin Rosencranz a byddin y Deheuwyr, yr hon oedd wedi cael ei chyfnerthu yn ddirfawr, yn agos i Chattanooga. Trechwyd Rosencranz, yr hwn a enciliodd i Chattanooga, lle y gosododd ei fyddin mewn sefyllfa o amddiffyniad, yn disgwyl am gyfnerthion. Nid ew yr Undebwyr etto wedi lwyddo i gymmeryd Charleston.

Y PRESBYTERIAN BOARD A'R DIWEDDAR DR. LLOYD. — Yr oedd y diweddar Dr. Lloyd—yn ei sefyllfa gyhoeddus fel Prif Athraw Coleg Caerfyrddin—yn dwyn perthynas neillduol â Chrefydd yn Nghymru ar un llaw ac â'r Bwrdd Henadurol (*Presbyterian Board*) ar y llaw arall, fel nad anghymwys cofnodi yn yr YMOFYNYDD y penderfyniadau o gydnabyddiaeth barchus iddo, a bassiwyd gan y *Board* ar eu ymgyfarfyddiad cyntaf ar ol marwolaeth y Doctor.

(O'r *Welshman*, Sept. 25.)

THE LATE DR. LLOYD.—At a special meeting of the Presbyterian Board on the 21st inst., it was unanimously resolved—"That the Board deeply regret to receive the intelligence of the death of the Rev. Dr. Lloyd, and would record their tribute of unfeigned respect for his high character and scholarly attainments, and their warm approbation of the eminent services he has rendered to the cause of religion and liberal education in the responsible position he has filled for 29 years at the Carmarthen College," and "That the Board entertains a high sense of his increasing devotion to the interests of this institution, his unwearied anxiety to promote sound learning and religious liberty, and the kind and paternal interest he manifested in the welfare of the students."

Marwolaethau.

Yn ddiweddar, Mr. Evan Abel Jones, Rhydygwin, Ystrad Aeron, Ceredigion, yn 92 o'i oed, ac felly yn hen iawn mewn dyddiau, ac yn ddiddadl yn ei lawn bryf mewn defnyddioldeb; gan ei fod yn aelod ffyddlon a diymmod tra bu yn aelod yn Cyfundeb yr Undodiaid yn y Cribyn, lle y dechreuodd ei daith grefyddol er ys triugain a rhagor o flynyddau, a chwedi hyny yn Ystrad a Rhydygwin o dan addysg y gwir glodfawr Mr. David Jenkin Rhys o Lwyd Jack, ac o dan weinidogaeth y Parch. John James, &c., o dan addysg da yr hwn y cynnyddodd gymmaint mewn gwir sel, crefyddol nid Phariseaidd. Ac felly y parhaodd hyd orpheniad ei yrfa yn ymdrechu dros y ffydd a seliodd Crist Iesu â gwaed ei galon. Pregethwyd yn ei angladd gan y Parch. W. Rees, jun., yn gymmwys iawn ar? Tim. vii. 8. Bydd rhagor etto am dano pan y ca yr ysgrifenydd ddigon o fodd i roi hanes fer am sylfaenwyr Undodiaeth y swydd hon.

Ar y 4edd o Fehefin, yn 63 mlwydd oed, Mr. Lot Davies, Tŷ Ffactory, Penybryn, ger Cribyn, Ceredigion. Os bu dyn diniwed erioed yn gwisgo cnawd a marw felly, dyma fe. Bu yn aelod ffyddlon yn eglwys Cribyn am rau fawr o'i oes, ac ni chafodd nag eglwys na byd achos—yr achos leiaf—i achwyn ei fod yno. O na bai pawb felly! yna byddai ein heglwysi yn addurn i'n gwlad, ac nid yn golofnau yn galw sylw y byd o herwydd eu hanghydfod, eu rhagfarn, a'u dylni. Claddwyd ef yn barchus, a phregethwyd gan yr ysgrifenydd oddiwrth Numeri xxiii. 10, "Marw wnelwyf o farwolaeth yr uniawn," &c., yn nhŷ cwrdd yr Independiaid yn y man, yna awd ag ef i'r gladdfa ym mynwent Dihewyd. T. G.

Mehefin 20, yn 62 oed, Mrs. Jones, gwraig Mr. J. Jones, Lanlas, wedi bod yn briod ag ef am 44 mlynedd, ac yn aelod ffyddlon yn eglwys Caeronnen am 43½ mlynedd. Pan y dywedwyd *ffyddlon*, yr oedd hi felly yn yr ystyr eithaf o'r gair—ffyddlon mewn gair a gweithred; "yn sicr a diymmod a helaeth yn ngwasanaeth ei Harglwydd yn wastadol." Mynychai, tra yn iach, wasanaeth crefyddol y lle ar bob amser, ac anhawdd iawn oedd cael ei gwell, heb Phariseaeth: yr oedd yn feddianol ar ddefoslwn o'r iawn ryw, gan ystyried mai nid diben crefydd yw'n tristâu na gwneud yn llai'n dedwyddwch, ond llanw mynwes y Cristion â llawenydd na wyr y byd ddim am dano. Nid oedd arni gywilydd o Efengyl Crist, ac felly nid oedd arni gywilydd i'w chael gyda'r eglwys yn y lle uchod, yn ddiarddeledig gan lawer efallai, yn y gymmydogaeth a'r byd, ïe, yn mysg hereticiaid, fel y cyfrifid hwynt, ac o'u mysg bu hi farw hefyd. "Ond siomedig yw ffafr, ac ofer yw tegwch, eithr gwraig yn ofni yr Arglwydd, hi a gaiff glod," Diar. xxxi. 31. Dilyned gwragedd a merched y gymmodogaeth hi, a hwythau hefyd a gant glod gan Dduw a dyn, a'u cydwybodau eu hunain. "Marw wnelwyf o farwolaeth yr uniawn, a bydded fy niwedd i fel yr eiddo hithau." Ar ddydd ei hangladd casglodd lluaws mawr yn nghyd i talu eu parch i'w gweddillion. Pregethodd y Parch. D. Evans, Caeronnen, ar yr achlysur, oddiwrth 2 Tim. iv. 7, 8, ac ni wnaeth gam a hi wrth ddewis y testun hyny, nac yn ei sylwnodau ychwaith. Gadawodd y chwaer hon wr a phump o blant i alaru ar ei hol, ynghyd a chyfeillion lawer, y

rhai a ddygant dystiolaeth i wiredd yr hyn a ysgrifenwyd ac a ddywedwyd am dani gan

TAU GIMEL.

Ar yr 21ain o Awst, yn 71 mlwydd oed, Mr. John Morgans, Llwynfedw, Llanybyther. Daearwyd gweddillion yr ymadawedig yng nghladdfa Capelygroes, lle y gorphwys hyd dymp y dydd olaf. Ar yr achlysur gweinyddodd y Parchedigion T. Thomas, Pantydefaid; D. Evans, B.A., Alltyblacca; T. Griffiths, Cribyn, a Mr. J. Davies, Tanycoed. Fod yr amgylchiad yn foddion i dywys ei anwyliaid ydynt eto yn rhodio taith yr anialwch, i frysio a pheidio oedi i gadw gorchymynion yr Arglwydd, ydyw dymuniad eu cyfaill,

J. D.

Ar y 30ain o fis Awst, yn 84 mlwydd oed, yr hen batriarch rhinweddol hyny, sef D. Davies, neu Humphreys, gynt gwehydd o'r Cribyn. Bu yn aelod, cyn ei symudiad er ys blynyddau yn ol, yn y Ciliau, lle y gwasanaethodd yn ffyddlon ei Arglwydd yn ddibaid ac heb dynu yn ol; ac felly am eglwys y Cribyn hyd ei drancedigaeth, pan yr hunodd yn yr Iesu mewn llawn hyder ffydd.

"Gwyn fyth eu byd ni phrofant hwy,
Na dolur na marwolaeth mwy."

Pregethodd yr ysgrifenydd ar 1 Thes. iv. 14, yn ei angladd. Claddwyd ef yn ymyl ei wraig ym mynwent Dihewyd, lle yr erys hyd ddydd dinystr y gelyn diweddaf.

Ar y 5ed o Fedi, yn 23 mlwydd oed, yn annisgwyliadwy iawn o'r *Diphtheria*, yn Lerpwl, lle yr oedd yn gweinyddu yn barchus iawn mewn masnachdŷ cymmeradwy er ys talm, Mr. David Jones, mab Mr. John Jones, Penrhyw, Dihewyd. Yr oedd yn un hynod o hynaws, a pherchid ef gan bawb a'i adwaenai oherwydd hyny a'i nodweddiad yn gyffredin. Yr oedd ef yn esiampl i lawer o'i gyfoedion yn y wlad hon, ac yn neilldiol yn nghymmydogaeth y Cribyn er ieuenged oedd, am ei ffyddlondeb dros y syniadau a dybiai ef oeddent y rhai ddysgodd Crist, sef Undodiaeth; a mynychai gapeli yr Undodiaid yn Lerpwl, ac yn neilldiol eiddo y Parch. Mr. Thom, lle mae yn debyg yr oedd yn aelod. Claddwyd ef gyda phob rhyw barch teilyngol, y dydd Mawrth canlynol ar ol ei farwolaeth; a dangosodd llawer o brif Undodiaid y lle perthynol i'r blaid barchus hyny, eu cymmeradwyaeth o hono. Dynion ieuainge, segur yr oes; b'le yr ydych yn yn sefyll? Ai ar hyd y dydd yn segur?

T. G.

Medi 15fed, yn Merthyr Tydfil, wedi hir gystudd, Margaret Thomas, yn 89 mlwydd oed, genedigol o blwyf Llandyssul, Ceredigion. Adwaenid hi yn gyffredin gartref wrth yr enw Peggi Llwyn yr Eos. Yr oedd er ys wyth mlynedd gyda ei merch yn Mhenydarren, Merthyr. Yr oedd, er wedi ei hymddifadu o'i golygon naturiol cyn ei dyfodiad i Merthyr, wedi cael gwell golygon, fel ag yr oedd a'i ffydd a'i gobaith yn gadarn ar ei Chreawdwr yn wastadol, gan ddywedyd, dan ei chystudd, "Ewyllys yr Arglwydd a wneler." Yr oedd yn aml yn canu llawer hymn felus ar ei gwely cystudd: clywodd yr ysgrifenydd hi yn canu rhai troion yn hyfryd iawn, a phob amser yn ymfoddloni i ewyllys ei Thad nefol. Llawer gwaith ar ei gwely y y canodd hi yr hymn felus hono o'r "Casgliadau:"—

"Pa mor hyfryd, Arglwydd tirion,
Ydyw coffa'th ddoniau maith;
Dy glodfori am dy roddion,
Fyth a fydd fy hoffaidd waith;
Trwy bob awr o'm pererindod,
Dy ddaioni fydd fy nghân;
Canaf ddydd a nos yn wastad,
Deilwng glod i'm Harglwydd glân."

Yr 17eg o'r mis ymgasglodd tyrfa luosog yn nghyd i'w hebrwng i dir ei hir gartref, a chladdwyd hi yn mynwent yr Hen-dŷ-cwrdd, Cefncoedycymmer, yn meddrod John Enoch ei mab-yn-nghyfraith; a phregethodd y Parch. O. Evans, gweinidog y lle, ar yr achlysur yn bwrpasol iawn oddiwrth 1 Thes. iv 18: "Am hyny diddenwch eich gilydd à'r ymadroddion hyn."

"Yn y beddrod, tawel gorphwys,
Hen ac ieuainc oll yn sarn;
Hyd nes clywer sain yr udgorn,
'N galw ar bawb i ddod i'r farn."

Merthyr. D. J. JONES.

Yn y Notais, ar ddydd Llun yr 17eg o Fedi diweddaf, Ann, merch Thomas ac Ann Mathews, ac wyr i'r Parch. T. Lloyd. Yr oedd yn blentyn gobeithiol iawn, ac hynod o garuaidd, addfwyn a siriol o ran ei thymer. Teimla ei rhieni a'i pherthynasau hiraeth trwm ar ei hol. Bydded iddynt hwy a phawb ereill yn yr un amgylchiad, fwynhau y cysur, y diddanwch, a'r ymostyngiad i drefniadau Rhagluniaeth ag y mae geiriau yr Iesu tirion yn eu cyfleu, "Gadewch i blant bychain ddyfod attaf fi, ac na waharddwch iddynt, canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd." Ar y dydd Mercher canlynol aethpwyd a'i chorph i'r Tŷ-cwrdd, ac yn absenoldeb ei hewythr, y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach, (yr hwn a fethodd dyfod oherwydd amgylchiad neilldiol), gorfu i'r ysgrifenydd, er caleted y gorchwyl mewn angladd perthynas mor agos ac anwyl, bregethu i gynulleidfa luosog. Ei testun oedd Matth. ii. 13. Yna hebryngwyd a chladdwyd hi yn monwent y Drefnewydd, lle yr erys hyd foreu mawr y codi.

"Er gorfod rhoddi'n chwaer yn awr
Dros amser fach, yn llwch y llawr,
Hi gyfyd etto'n fyw;
Anwyliaid, ein calonnau cawn
O'r bedd yn ol, gwynfydig ddawn,
O law'r Trugarog Dduw."

TITUS LLOYD.

Medi 13eg, y Parch. Dr. Lloyd, prif Athraw Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin, yn 58 mlwydd oed.

Ganed a threuliodd yr ymadawedig y blynyddau cyntaf o'i oes yn Llandyssil, swydd Ceredigion, dan ddysgyblaeth y Parch. John Thomas, gweinidog yr Undodiaid yn Pantydefaid, a derbyniwyd ef pan oddeutu ugain oed yn fyfyriwr i Athrofa Caerfyrddin, lle y treuliodd yr amser arferol gyda rhyw ychydig o enwogrwydd fel ysgolhaig. Aeth o Athrofa Caerfyrddin i Brif-ysgol Glasgow, yn Scotland, lle y cafodd ar ei ymadawiad oddiyno ei anrhydeddu â'r teitl "Athraw y Celfyddydau" (*Master of Arts*). Yr amser hynny, ar symudiad Athraw Clasurol Coleg Caerfyrddin, etholwyd yr ymadawedig Dr. Lloyd i lanw ei le, sef yn y flwyddyn 1834. Yn mhen rhai blynyddau ar ol ei etholiad yn Athraw anrhegodd Prif-ysgol Glasgow ef â theitl ychwanegol, sef LL.D., *Doctor of Laws;* ac oddiar hyny gelwid ef Doctor Lloyd, yn lle ei enw priodol, David Lloyd.

Yr oedd yr ymadawedig o ran ei dymerau naturiol yn lled gyffröus, ond yn hollol gymmodlawn mewn amser byr. O ran ei gorpholaeth yr oedd pan yn ieuanc yn denau o gnawd ac o faintioli cyffredin, ac yn gloff o un droed oddiar yn blentyn; yr oedd o fewn i'r ugain mlynedd olaf o'i oes yn lled gorphorol. O fewn y pedair neu y pum mlynedd olaf o'i oes yr oedd wedi ei analluogi gan gloffi i fod mor ddefnyddiol yn ei gylch cyhoeddus ag o'r blaen; ond bu yn alluog oddieithr rhyw eithriadau i bregethu yn ei addoldŷ ei hun yn Nghaerfyrddin hyd o fewn i ddau fis i'w farwolaeth, neu ychydig yn 'chwaneg. Adeiladodd yr ymadawedig, trwy gynnorthwy eraill, addoldŷ hardd yn Nghaerfyrddin, ac ymdrechodd yn egniol i gymmell a sefydlu ei syniadau Undodaidd yngwyneb rhagfarn gref trigolion y dref; yr oedd yn hynod ei sel dros Undodiaeth a phob pwnc arall cynnwysedig yn y Testament Newydd; a chrybwyllai yn aml yn ei bregethau am niweid y cyfeiliornadau triudodaidd, yn enwedig y grefydd sefydledig, ac aml y cyfeiriai at yr hyn ystyriai yn dwyll gwirfoddol o du y mwyaf dysgedig, sef yr Esgobion. Pob sefydliad da ac elusengar yn y dref ac allan o honi, megis ysgolion (*Lancasterian School*), Clafdy (*Infirmary*), a'r *Literary Institution*, adeiladu ac ail-adeiladu capeli gafodd yr hyn a allai o gefnogrwydd a chynnorthwy ganddo; yr oedd yn is-lywydd (*vice-president*) yn rhai o honynt oddiar pan sefydlwyd hwynt.

Braidd y disgwylir cael un i lanw ei le yn gyflawn fel Athraw yn y Coleg: yr oedd a'i holl egni yn cymmell y rhai oedd dan ei ofal i ymdrechu i ddysgu, ac i ffurfio eu cymmeriad yn addas i'r alwedigaeth uchel a phwysfawr y partoent eu hunain iddi, sef i waith y weinidogaeth Gristnogol. Dysgodd lawer am ddim, ac ymddygai megis tad i'r isel ei amgylchiadau yn y coleg, a bu yn foddion i gynnorthwyo llawer o'i gydnabyddiaeth diymgeledd fyddai mewn amgylchiadau isel, allan o drysorfeydd cyhoeddus i'r perwyl.

Dydd Mawrth, y 7fed o Orphenaf, tarawyd yr ymadawedig gan y parlys nes ei analluogi i raddau helaeth i siarad, a gwanhaodd ei ochr aswy i'r fath raddau fel nas gallsai symud nemawr na llefaru dim o fewn i'r pedwar diwrnod olaf o'i fywyd: bu farw yn dawel ac yn esmwyth. Gadawodd weddw yn alarus iawn ar ei ol, a dau o blant, sef mab a merch. Ar ddydd ei gladdedigaeth dangoswyd iddo fawr barch a theimlad pruddaidd ymhob masnachdy trwy'r dref, ac ymgasglodd torf o weinidogion o wahanol enwadau, a blaenoriaid y dref ac eraill i'w angladd. Claddwyd ef yn y fan bennododd ei hun yn ei ddydd, yn mynwent (*cemetery*) y dref. Pregethodd y Parch. Mr. Hunter, un o Athrawon y Coleg, ei bregeth angladdol yn Saesneg, ac ysgrifenydd y llinellau hyn (Titus Evans) yn Gymraeg, y Sul cyntaf ar ol ei angladd: Mr. Hunter oddiwrth 2 Tim. i. 10; a T. Evans oddiwrth Psalm 112. 5, 6 adnodau. Aeth ein cyfaill i'w orphwysfa ychydig o'n blaen, gan adael lliaws i alaru ar ei ol: yn fuan eanlynwn ef. Bendigedig fyddo Duw am y gobaith gwynfydedig o adgyfodiad, ar sail dysgeidiaeth, marwolaeth ac adgyfodiad Crist.

TITUS EVANS.

Barddoniaeth.

YMADAWIAD Y FAM.

Ar foreu'n y Gwanwyn, ryw fis cyn yr haf,
Fe alwodd bon'ddiges ei meibion:
Tri bachgen oeddent—tri bychain, dinam—
Tri 'garai eu mam yn ei chalon.

Dewch Morgan ac Ifan a'm ie'ngaf fab John,
Rhowch i mi ryw arwydd o'ch cariad;
Ymhell pell o gartref, a galar i'm bron,
'Rwyn myned—rhowch atteb i'm galwad.

Daeth Morgan yn ebrwydd dan wenu i'r lan,
Cyn byddo i chwi, mami, ymado,
Y cwpan hwn roddaf fel serch-nodyn gwan—
Eich enw'n gerfiedig sydd arno.

Daeth Ifan a garlant o flodau, mor hardd
A'r garlant gynt wisgid gan Elen,
Pan ddaeth Meneläus dro cyntaf i'r ardd
I'w galw dan gysgod yr ywen.

Ond John ddaeth i fyny at ochr ei fam
A'r dagrau yn gwlychu ei ruddiau;
Ei galon a welid yn rhoddi pob llam,
Fel syrthiai pob gair dros ei enau.

I'r fam sy'n fy ngadael nid oes genyf fi
Na chwpan na garlant i'w roddi;
Ond wele'n fy mynwes y galon y sy
Yn gofen barhäol am dani.

Q.

HEN GARREG LWYD YM MIN Y MYNYDD.

Ow! garreg lwyd, fàn hyn wyt ti,
Er's amser maith, debygaf fi,
Odd'wrth dy lwydaidd arw rân;
Rhyw stormydd certh aeth dros dy ben,
Arwisgwyd di gan lawer llen
O drwchaidd, bluog, eira glân.

Ti welaist amser gwedi hyn,
Pan llamai'r wŷn ar ael y bryn
Odd'amgylch eu mhamogiaid,
Ac oll y deuent yn haid gref
I'th amgylchynu di â'u bref:
(Oedd hyfryd wel'd y defaid.)

Ar dywydd tesog hyfryd haf,
Rhyw olwg brydferth iawn a gaf
O'th ymyl di, hen garreg lwyd;
Cael edrych ar y bryniau draw,
Ar wyrddlas goedwig sydd islaw
Lle'r ydwyt ti, hen garreg lwyd.

A lle'r ymbyncia'r adar mân,
Gan dywallt maes eu peraidd gân,
Nes lloni min y mynydd;
Rhyw swynol deimlad leinw'r fron
Tra'n sefyll ar y fangre hon
Ar foreu tawel haf-ddydd.

Hen garreg lwyd, yr ydwyt ti
'N dderbyniol iawn gan ddynion ri'
Drafaelaut lân i'r mynydd;
I orphwys arnat, er cael nerth
Tra'n 'mofyn am y ddysc o werth,—
Y ddysc a rydd lawenydd.

Rhyw lawer brawd aeth lawer gwaith,
I fyny heibio it' ar daith
Tua'r fangre lle'r addolent;
Ond heddyw maent yn wael eu gwedd
Yn gorwedd lawr ar waelod bedd,
Yn nghladdfa'r lle a hoffent.

Ti heri lawer storm a gŵyd,
A fŵr ar draws dy wyneb llwyd,
Am oesoedd etto i ddyfod:
A thebyg yw, aiff llawer un
I fynu heibio, cyn ei hun,—
A gorphwys yn ei feddrod.

Ow! garreg lwyd, rhaid gadael 'nawr,
'Dyw wiw i neb i gŵyno'n fawr
Am rai sydd yn y beddrod;
Can's dydd a ddaw, rhaid 'ninnau fyn'd:
Pob Cristion âd ar ol ei ffrynd,
Gan ddisgwyl ail gyfarfod.

Awst 10, 1863. SILEX.

PROFIAD Y BARDD.

Nos angau sy'n nesu, rwy 'n deall fy hun,
Mae'r cwsg nos yn cilio, a'm dyddiau sydd flin;
'Does achos dychrynu dan nodded ein Duw,
Cawn fywyd trag'wyddol, a nefoedd i fyw.

Beth fynwn yn rhagor? Mae pob peth yn dda:
Dyn marwol wrth natur yn gadael ei bla;
A chael buddugoliaeth ar angau a'r bedd,
A gwledda'n drag'wyddol mewn gwynfyd a hedd.

Mae Duw yn ei gariad yn porthi pob rhyw,
Cant fwyd at eu harchwaeth i'w cadw yn fyw;
O b'le daeth y meddwl y portha efe ddyn
A phoenau trag'wyddol 'rhwn wnaeth ar ei lun?

Dirmyg yw hyny ar gariad ein Iôr,
O fewn cylch ei gariad mae digon yn stôr,
I roi porthiant i'r enaid a'r dyn i gael byw:
Gwir anghyfnewidiol yw cariad ein Duw.

Rhymni. CRWYDRYN.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.

At ein Gohebwyr.

*** Philo II.—Gadawyd allan Erasmus a Grotius, am na ddangosid eu bod yn gwneud *proffes* o Ariaeth. Bydd yr "Enwogion," credwn, yn dderbyniol.

*** Dymunem alw sylw ein cynnorthwywyr caredig, unwaith etto, at yr angenrheidrwydd o anfon eu cyfnerthion i ni yn brydlawn, fel y gallo'r YMOFYNYDD wneud ei ymddangosiad *yn rheolaidd*—erbyn y Sul cyntaf yn y mis.

*** Anfoner y Gohebiaethau a phob *Orders*, yn brydlawn, at y Golygydd, cyfeiriedig fel y canlyn :—*Rev. John E. Jones, Unitarian Minister, Bridgend.*